# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN, 25 EBRILL, 2022 AM 10.00 o'r gloch** | | **MONDAY, 25 APRIL, 2022 AT 10.00 am** |
| **CYFARFOD RHITHWIR WEDI'I FFRYDIO'N FYW (AR HYD O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU)** | | **VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING (AT PRESENT MEMBERS OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND)** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno i'w cadarnhau, cofnodion drafft cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 9 Mawrth 2022
- 21 Mawrth 2022

**4** **PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL** (Tudalennau 13 - 18)

Cyflwyno i'w mabwysiadu, cofnodion drafft y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2022.

**5** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 19 - 28)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro.

**6** **NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD** (Tudalennau 29 - 56)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth Dros Dro (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

# Y PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol arbennig a gynhaliwyd ar y 9fed o Fawrth, 2022

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Llinos Medi (Cadeiryddd)<br>Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd) (o eitem 4)<br><br>Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)<br>Rheolwr Newid Hinsawdd (RAW)<br>Rheolwr Busnes (Gwasanaethau Oedolion) (EE)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ)<br>Uwch Beiriannydd (Trafnidiaeth Strategol a Chynaliadwy)(DLlJ)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Glyn Haynes, Gwilym O. Jones, Dafydd Roberts, Mr Arwyn Hughes (Rheolwr Rhaglen), Mr Gethin Jones (Swyddog Cyfathrebu) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod arbennig hwn o'r Pwyllgor Gwaith sef cyfarfod olaf Mrs Annwen Morgan fel Prif Weithredwr cyn ei hymddeoliad. Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch ar ran y Pwyllgor Gwaith i Mrs Morgan am ei harweiniad a'i hymrwymiad yn enwedig yn ystod y pandemig Covid-19, ac i ddymuno'n dda iddi yn ei hymddeoliad.

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI

Dim materion i'w hadrodd.

### 3. SEFYDLU CYNLLUN TUAG AT CARBON SERO NET CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr yn ymgorffori Cynllun tuag at Net Sero Cyngor Sir Ynys Môn 2022-25 er ystyriaeth a sgrwitini'r Pwyllgor.



DRAFT

Dywedodd Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol, ei bod yn bleser fel Pencampwr Newid Hinsawdd y Cyngor, cael cyflwyno'r Cynllun Tuag at Sero Net sydd yn cynrychioli cam cyntaf ar daith y Cyngor i drawsnewid i sefydliad carbon sero net erbyn 2030. Er y bydd cyrraedd y targed hwn yn heriol a bydd angen buddsoddiad ariannol sylweddol, mae'r Cyngor eisoes wedi bod yn gwneud cynnydd i leihau ei allyriadau carbon a bydd y Cynllun yn adeiladu ar lwyddiant strategaethau a phrosiectau presennol, er enghraifft y Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni a'r cynllun Ail-osod sef y buddsoddiad mwyaf a wnaed gan y Cyngor i leihau defnydd ynni ac allyriadau carbon, werth £2.4m. Mae angen cynllun clir a hyblyg sy'n mynd i'r afael â phob agwedd ar waith y Cyngor er mwyn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei uchelgeisiau sero net erbyn 2030; cam pwysig yw sefydlu llinell sylfaen a system ar gyfer monitro ac adrodd ar gynnydd. Dylid ystyried y prosiect hwn yrrwr newid cadarnhaol, yn debygol o greu cyfleoedd ar ffurf sgiliau, hyfforddiant a rolau arbenigol yn ogystal â diwydiannau newydd ac mae'n bosibl mai dyma'r newid diwylliant mwyaf y bydd y Cyngor yn ei wynebu. Mae gan y Cyngor, ei bartneriaid, trigolion a busnesau i gyd ran i'w chwarae a bydd angen iddynt weithio gyda'i gilydd i gyflawni statws sero net.

Cytunodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y newid arfaethedig yn sylweddol ac yn bellgyrhaeddol a bod yr amserlen yn heriol o ran y gwaith sydd i'w wneud. Mae'r Cynllun Tuag at Sero Net yn dynodi ymrwymiad y Cyngor i'r dasg ac yn gosod cyfeiriad i'r gwaith. Mae'n gynllun uchelgeisiol ond ar yr un pryd, yn gyraeddadwy ac mae'n nodi'n glir sut y bydd y Cyngor yn dod yn sero net erbyn 2030. Bydd cyflawni'r Cynllun yn golygu bod yn rhaid blaenoriaethu a bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau, dewisiadau a chyfaddawdau anodd ar hyd y ffordd. Os caiff y Cynllun ei gymeradwyo, y camau nesaf fydd llunio cynllun gweithredu a chynllun monitro yn ogystal â chryfhau'r llinell sylfaen. Wrth osod cyfeiriad i'r gwaith y gobaith yw y gall y Cyngor ddatblygu'r cynllun yn rhaglen ehangach - un maes sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd yw cynnwys ysgolion a phobl ifanc yn yr agenda hon.

Dywedodd y Rheolwr Newid Hinsawdd fod y Cynllun yn gam cyntaf ar y daith tuag at ddod yn Gyngor sero net erbyn 2030.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn y cyfarfod ar 28 Chwefror, 2022 yn gefnogol o'r Cynllun ac wedi ei argymell i'r Pwyllgor Gwaith.

Wrth groesawu'r Cynllun Tuag at Sero Net fel un a fydd yn dylanwadu ar weithrediadau'r Cyngor dros y blynyddoedd nesaf, cydnabu'r Pwyllgor Gwaith hefyd y bydd goblygiadau o ran arian ac adnoddau y bydd yn rhaid eu hystyried wrth gyflawni'r Cynllun yn llwyddiannus.

**Penderfynwyd cefnogi Cynllun Tuag at Carbon Sero Net Cyngor Sir Ynys Môn 2022-2025.**

## 4. CYNLLUN GWEFRU CERBYDAU TRYDAN YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) yn ymgorffori Crynodeb o Gynllun Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan Ynys Môn er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Cynghorydd Bob Parry, OBE, FRAgS, wrth gyflwyno'r Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan, ei fod yn cysylltu â'r eitem flaenorol o ran cefnogi amcan y Cyngor o ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030. Mae cyflawni'r Cynllun Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan yn dibynnu ar sicrhau cyllid allanol; bydd mabwysiadu'r Cynllun yn rhoi llwyfan i'r Cyngor wneud bidiau cryf yn seiliedig ar dystiolaeth am gyllid o'r fath a darparu dull gweithredu cyson ar gyfer y cyfnod cyflawni.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) fod y Cynllun Gweithredu Cerbydau Trydan yn ymwneud â gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn asedau'r Cyngor i'w defnyddio gan staff a cherbydau'r Cyngor a hefyd lle bo'n briodol, i'r

cyhoedd eu defnyddio; bydd unrhyw ddarpariaeth breifat yn ychwanegol at ddarpariaeth y Cyngor. O ystyried bod bwriad dod a gwerthu cerbydau petrol a disel i ben yn 2030, mae'n bwysig bod gan y Cyngor gynllun yn ei le i fod yn barod ar gyfer y newid i gerbydau trydan; mae Cynllun Trawsnewid Fflyd yn cael ei baratoi ar wahân i egluro a dangos sut y bydd y Cyngor yn datgarboneiddio ei gerbydau fflyd ei hun. Mae'r Cynllun Gweithredu Cerbydau Trydan yn uchelgeisiol ac mae ei gyflawni yn amodol ar sicrhau cyllid grant allanol, mae'r costau llawn yn amodol ar gadarnhad a gwaith ymchwil pellach sydd ei angen o ran y mathau o seilwaith gwefru sydd eu hangen ac argaeledd cyflenwad pŵer. Mae’r Cyngor mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a Scottish Power ynghylch y materion hyn. Mae'r Cynllun Gweithredu wrth ddangos ymrwymiad y Cyngor i weithredu isadeiledd gwefru sy'n cwrdd â gofynion trigolion ac ymwelwyr yr Ynys, ac wrth fod yn glir sut y mae'n bwriadu gwneud i hynny ddigwydd, yn golygu y bydd y Cyngor mewn sefyllfa dda i fanteisio ar gyfleoedd cyllid grant pan fyddant ar gael. Dylid nodi hefyd y bydd seilwaith gwefru cerbydau trydan y Cyngor yn gwbl ddwyieithog ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth yr iaith Gymraeg.

Dywedodd yr Uwch Beiriannydd (Cludiant Strategol a Chynaliadwy) y bydd y Cynllun Gwefru Cerbydau Trydan yn cyfrannu at ddatgarboneiddio’r sector trafnidiaeth o safbwynt Ynys Môn a’i fod yn cyd-fynd â Llwybr Newydd – Strategaeth Trafnidiaeth Cymru sy’n gosod y fframwaith ar gyfer datgarboneiddio’r sector trafnidiaeth yng Nghymru gyfan a Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan i Gymru. Cyfeiriodd at yr heriau wrth gyflawni'r Cynllun gyda chyllid a chyflenwad pŵer ymhlith yr heriau mwyaf sylweddol. Bydd monitro datblygiadau wrth i dechnolegau esblygu a rhai newydd gael eu cyflwyno hefyd yn bwysig er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i fod yn gyfredol o ran y sector newydd hon sy’n newid o hyd. Fodd bynnag, bydd y Cynllun Gweithredu yn darparu llinell sylfaen gadarn i adeiladu arni a symud ymlaen.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn y cyfarfod ar 28 Chwefror, 2022 wedi cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu gyda chwestiynau'n cael eu gofyn am ddatblygu technolegau amgen megis hydrogen, tariffau ar gyfer defnydd cyhoeddus o bwyntiau gwefru ac agwedd y Cyngor at orfodi mewn achosion lle mae cerbydau'n aros yn hirach na'r amseroedd gwefru.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Datblygu Economaidd a Phrosiectau Mawr at yr wyth egwyddor a nodir yn y cynllun a fydd yn llywio dull y Cyngor o ddarparu ystod o gyfleusterau gwefru a oedd, yn ei farn ef, yn cynnwys yr ystyriaethau allweddol ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer symud ymlaen. Tynnodd sylw at y ffaith bod y Cyngor wedi bod yn ymwneud â gweithgareddau datgarboneiddio ers nifer o flynyddoedd a bod y gwaith hwn bellach yn cael ei ddwyn ynghyd mewn cynlluniau a fydd yn symud y Cyngor yn ei flaen ac yn ei helpu i gwrdd â'r her o ehangu'r seilwaith gwefru cerbydau trydan ar yr Ynys fel mae nifer y cerbydau trydan yn cynyddu.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo’r Grynodeb o Gynllun Gwefru Cerbydau Trydan Ynys Môn (mae’r ddogfen dechnegol fanylach Cynllun Gwefru Cerbydau Trydan Ynys Môn, ar gael ar gais).**
- **Cymeradwyo datblygu a chyflwyno ceisiadau am gyllid allanol i symud ymlaen â’r cyflawni.**
- **Cefnogi ystyriaeth o ofynion seilwaith gwefru cerbydau trydan yn Strategaeth Gyfalaf newydd y Cyngor (i’w datblygu) ac ar sail achosion unigol pan fydd prosiectau seilwaith cyfalaf yn cael eu datblygu a’u gweithredu (gan gynnwys tai, unedau busnes, moderneiddio ysgolion, darpariaeth gofal ychwanegol, adfywio canol trefi a seilwaith arfordirol / twristiaeth ac ati.)**

## 5. ADRODDIAD DRAFFT ASESIAD ANGHENION POBLOGAETH GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi trosolwg o Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022 er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith. Mae'r Asesiad wedi'i lunio yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lunio a chyhoeddi asesiad ar ffurf adroddiad erbyn mis Ebrill, 2022.

Cyflwynodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad gan ddweud ei fod yn ganlyniad i waith llawer o gyfranwyr a bod adborth wedi'i ddarparu gan staff, sefydliadau partner, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd i adnabod anghenion strategaeth ar gyfer gofal a chymorth.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion fod yr asesiad wedi ei arwain gan ymgysylltu a'i fod yn rhoi syniad o anghenion gofal a chymorth o fewn poblogaeth Gogledd Cymru ac yn nodi meysydd o anghenion sydd heb eu cwrdd a bylchau yn y ddarpariaeth. Mae'n galluogi'r Awdurdod i bwyso a mesur ei sefyllfa yn erbyn sefyllfa awdurdodau eraill y rhanbarth ac mae'n darparu sylfaen ar gyfer strategaethau a chynlluniau comisiynu yn y dyfodol ar y cyd â phartneriaid ar sail ranbarthol ac yn benodol i Ynys Môn. Mae'r asesiad yn arwain at Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad y mae'n ofynnol i awdurdodau ei gynhyrchu hefyd, sef asesiad o ddigonolrwydd y ddarpariaeth gofal a chymorth ac yn dilyn o hynny bydd cynllun gweithredu'n cael ei gynhyrchu yn gynnar yn 2023 yn amlygu'r meysydd y mae'r Awdurdod yn credu y dylai ganolbwyntio arnynt.

Adroddodd y Cynghorydd Gwilym O. Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio o gyfarfod y Pwyllgor ar 8 Mawrth, 2022 a oedd wedi craffu ar Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru ar gyfer 2022. Dywedodd y Cynghorydd Jones fod y Pwyllgor wedi cael trafodaeth gynhyrchiol a bod nifer o bwyntiau wedi eu codi mewn perthynas â phwrpas yr Asesiad a sut y gallai lywio cynlluniau a strategaethau yn y dyfodol; i ba raddau y mae'r data a gasglwyd yn adlewyrchiad teg o anghenion gofal a chymorth poblogaeth Ynys Môn; meysydd gwasanaeth y mae angen eu datblygu a'u cryfhau ymhellach, a'r trefniadau a'r amserlen ar gyfer paratoi asesiad arbenigol ar gyfer plant ag awtistiaeth. Ar ôl cael sicrwydd ar y pwyntiau hyn, penderfynodd y Pwyllgor argymell Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022 i'r Pwyllgor Gwaith i'w gymeradwyo.

**Penderfynwyd argymell i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r Adroddiad Drafft Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022.**

## 6. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Ystyriwyd a phenderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig.**

## 7. DATBLYGIAD GOFAL YCHWANEGOL - TYDDYN MOSTYN, PORTHAETHWY

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn nodi cynnig i ddatblygu cynllun Gofal Ychwanegol ar dir y Cyngor yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai fod Cynllun y Cyngor wedi nodi'r angen am gynllun Gofal Ychwanegol yn Ne'r Ynys. Bydd y cynllun hwn yn helpu i fynd i'r afael â'r angen hwn drwy ddarparu 40 o fflatiau gyda'r potensial i gynnwys 15 o ystafelloedd gofal preswyl arbenigol cofrestredig, yn ogystal â lle i leoli Tîm Adnoddau Cymunedol sy'n



DRAFT

cynnwys staff iechyd a gofal cymdeithasol i wasanaethu de'r Ynys. Mae safle ar dir y Cyngor ger Tyddyn Mostyn, Porthaethwy wedi ei adnabod fel y lleoliad gorau allan o chwe safle a gafodd eu hystyried ac a gafodd eu hasesu yn erbyn set o feini prawf penodol. Byddai'r adeilad arfaethedig yn cael ei adeiladu i safonau carbon niwtral yn unol ag amcan y Cyngor o gyflawni statws carbon sero net erbyn 2030. Mae'r cynllun wedi'i asesu ar gyfer fforddiadwyedd ac mae'r model cychwynnol yn dangos bod y cynllun yn hyfyw ar y costau amcangyfrifedig ac yn cydymffurfio â gofynion arweiniad yr Awdurdod ar ddatblygiadau tai newydd. Mae ffynonellau cyllid amrywiol wedi'u hadnabod ar gyfer y cynnig gan gynnwys cyllid grant a'r CRT. Mae'r cynnig yn cefnogi cyflawni un o'r amcanion a nodwyd yng Nghynllun y Cyngor i gefnogi oedolion a theuluoedd agored i niwed a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl. Pe byddai'r datblygiad hwn yn cael ei gymeradwyo, byddai'n gwella'r adnodd cymunedol i gefnogi cyfleoedd i fyw'n annibynnol.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion fod y cysyniad o ofal ychwanegol wedi cryfhau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ddau gynllun sefydledig yn Llangefni a Chaergybi wedi'u gwerthuso a bydd y gwersi a ddysgwyd o'r cynlluniau hynny'n llywio'r gwaith o gyflawni'r datblygiad arfaethedig tra hefyd yn sicrhau ei fod yn berthnasol i'w ardal.

Cadarnhaodd y Cadeirydd gefnogaeth Sgriwtini i'r cynnig gyda'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi trafod yr adroddiad yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror, 2022 ac wedi argymell y cynllun i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo.

Croesawyd y cynnig gan y Cynghorydd Robin Williams ac R. Meirion Jones fel Aelodau Lleol a'r Cynghorydd Alun Mummery fel Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau.

**Penderfynwyd symud ymlaen i ddatblygu cynllun Gofal Ychwanegol ar dir Cyngor Sir Ynys Môn yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy.**

## 8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Ystyriwyd a phenderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig.**

## 9. MODERNEIDDIO YSGOLION – ARDAL LLANGEFNI: ACHOS BUSNES YSGOL Y GRAIG

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Sgiliau, Addysg a Phobl Ifanc yn ymgorffori'r Achos Busnes Llawn ar gyfer cynyddu capasiti Ysgol Y Graig drwy adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Darparodd y Cynghorydd R. Meirion Jones, Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid grynodeb byr o'r daith i'r pwynt hwn o dan y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ar gyfer y rhan hon o Langefni. Cadarnhaodd fod y Cyngor wedi derbyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru bod yr Achos Amlinellol Strategol/Achos Busnes Amlinellol (SOC/OBC) a gymeradwywyd i'w gyflwyno gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi, 2021 wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a thrwy hynny wedi galluogi'r prosiect i symud ymlaen i gyflwyno Achos Busnes Llawn i sicrhau 65% o'r cyllid cyfalaf ar gyfer y prosiect o dan Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru. Mae'r Achos Busnes wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n nodi gofynion achos busnes y Rhaglen, ac yn manylu ar yr achos strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheolaethol ar gyfer y cynnig.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo’r Achos Busnes Llawn  ar gyfer y bloc Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig.**
- **Cymeradwyo cyflwyno’r Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru.**
- **Cymeradwyo clustnodi derbyniadau cyfalaf ar gyfer adeiladu bloc Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig.**
- **Dirprwyo awdurdod i’r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 a’r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i ddiwygio’r Achos Busnes Llawn os oes angen - os nad yw’r newidiadau’n arwain at newid sylweddol (o ran polisi, egwyddorion, cyfraniad ariannol, risgiau a niwed i drydydd parti).**
- **Neilltuo arian datblygwyr o ddatblygiadau Tai o fewn dalgylch Ysgol Y Graig i gyfrannu tuag at gost y prosiect.**
- **Ymrwymo i ariannu gofyniad cyfalaf y Cyngor – tuag at gost y prosiect.**
- **Ariannu costau trosiannol tymor byr sy'n gysylltiedig â'r prosiect .**

**Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFFT

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 21 Mawrth, 2022

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth Dros Dro (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro<br>Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)<br>Rheolwr Busnes (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) (GP)<br>Rheolwr Gwasanaethau Tai (Strategaeth, Comisiynu a Pholisi) (ELl)<br>Prif Swyddog Datblygu – Cefnogi Pobl (AJ)<br>Swyddog Polisi (RWJ)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd R.G.Parry, OBE, FRAgS |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Dylan Rees, Dafydd Roberts, Mr Gethin Jones (Swyddog Cyfathrebu) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Gwaith ac yn benodol estynnodd groeso i Mr Dylan Williams, y cyn Dirprwy Brif Weithredwr i'w gyfarfod cyntaf fel Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn a dymunodd yn dda iddo yn ei swydd. Gan fod y Weinyddiaeth bresennol yn tynnu tua'i therfyn manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'w chyd aelodau o'r Pwyllgor Gwaith am eu gwaith a'u cefnogaeth dros y pum mlynedd diwethaf.

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Cafwyd datganiadau o ddiddordeb mewn perthynas ag eitem 10 isod.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG

Dim i'w hadrodd.

### 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 3 Mawrth, 2022 i'w cadarnhau.

DRAFT

**Penderfynwyd bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 3 Mawrth, 2022 yn cael eu cymeradwyo fel rhai cywir.**

## 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith ddiwygiedig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill a Thachwedd, 2022 ac fe amlygwyd y newidiadau canlynol-

- Eitem 18 i 21 – adroddiadau perfformiad a monitro'r gyllideb ar gyfer Chwarter 2 2022/23 sydd yn eitemau newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd, 2022.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod Ebrill i Dachwedd, 2022 fel y'i cyflwynwyd.**

## 5. ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO - CHWARTER 3 2021-22

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, a oedd yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol a oedd yn nodi sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol ar ddiwedd Chwarter 3 2021/22, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol y cerdyn sgorio terfynol ar gyfer y Weinyddiaeth bresennol a dywedodd ei bod yn galonogol nodi bod 85% o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n dda yn erbyn eu targed tra bo 82% yn perfformio tu hwnt neu o fewn 5% i'w targed. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio a Busnes Corfforaethol at nifer o feysydd a oedd yn sefyll allan mewn perthynas ag ailddefnyddio eiddo gwag, glanhau strydoedd a chynnydd yn nifer y bobl sy'n elwa o'r cynllun Ymarfer Corff. Nodwyd rhai meysydd sy'n tanberfformio ac mae'r rhain yn cael sylw fel yr amlinellir yn yr adroddiad. Ar y cyfan mae'r Cyngor yn dal i berfformio'n dda oherwydd ymrwymiad ei staff a'i gontractwyr yn ystod cyfnod sydd wedi bod yn heriol iawn.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dylan Rees asesiad y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol o'r adroddiad perfformiad ar y cerdyn sgorio yn dilyn ei gyfarfod ar 7 Mawrth, 2022 gan amlygu'r meysydd perfformiad a heriwyd gan y Pwyllgor a chadarnhaodd bod y Pwyllgor yn hapus i argymell yr adroddiad ar y cerdyn sgorio a'r mesurau lliniaru i'r Pwyllgor Gwaith yn dilyn derbyn sicrwydd gan y Swyddogion a'r Deilydd Portffolio.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn croesawu'r adroddiad a'r perfformiad cadarn yr oedd yn ei adlewyrchu; a chyfeiriwyd at feysydd gwella dros y cyfnod adrodd yn cynnwys presenoldeb yn y gwaith sydd bellach yn 6.67 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb am bob CALI yn erbyn targed heriol o 6.19 diwrnod o'i gymharu â tharged o 9.78 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb am bob CALI a osodwyd yn 2017. Y perfformiad ym maes Addysg mewn perthynas â Dangosydd 4 - canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen sydd yn 87% ac fe amlygwyd hyn fel rhywbeth y dylid ymfalchïo ynddo yn ogystal â'r ffaith nad oes yr un ysgol ar Ynys Môn mewn mesurau arbennig. Hefyd, amlygwyd y modd y caiff y Premiwm ar y Dreth Gyngor ei defnyddio i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd er mwyn galluogi'r Cyngor i adfer adnoddau a fyddai, fel arall, yn cael eu gwastraffu yn ogystal â mynd i'r afael â mater sydd yn aml iawn yn achosi pryder i gymunedau. Yn ogystal â hyn nodwyd y tuedd ar u fyny mewn perthynas â pherfformiad y rhan fwyaf o'r dangosyddion.



DRAFT

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad monitro ar y Cerdyn Sgorio ar gyfer Ch3 2021/22, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol a derbyn y mesurau lliniaru a amlinellir yn yr adroddiad.**

## 6. CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai, a oedd yn cynnwys Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2022 i 2052, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Mummery, Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2022 i 2052 a oedd yn nodi'r blaenoriaethau a gofynion buddsoddi o ran stoc dai'r Cyngor yn ystod cyfnod y cynllun. Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau ei fod yn cymeradwyo'r Cynllun a'i fod yn dyst i'r gweithgareddau a ymgymerwyd â hwy drwy'r Cyfrif Refeniw Tai ac wrth edrych ymlaen i'r dyfodol bydd yn gweithredu fel rhaglen datblygu a gwella strategol. Mae'r gweithgareddau a ymgymerwyd â hwy yn cynnwys datblygu tai newydd mewn sawl ardal; gosod systemau Solar PV fel rhan o'r gwaith perfformiad ynni i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon, a pharhau i fuddsoddi yn y rhaglen brentisiaethau i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai mai'r nod yw cynyddu stoc dai'r Cyngor i dros 5,000 uned erbyn diwedd oes y Cynllun. Mae'r Cynllun Busnes yn dangos ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu tai newydd mewn ardaloedd lle mae galw amdanynt yn cynnwys pob math o wahanol ddaliadaethau, a chynnal a rhagori ar Safonau Ansawdd Tai Cymru mewn perthynas â'i stoc dai bresennol.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Dylan Rees bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth, 2022 wedi trafod materion yn ymwneud â phroffil tenantiaid, pa un ai a oes capasiti a sgiliau ar gael i gyflawni'r agenda datgarboneiddio a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar lefelau rhent a'i fod wedi penderfynu argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo Cynllun Busnes y CRT.

Bu i'r Pwyllgor Gwaith gydnabod yr hyn a gyflawnwyd gan y Gwasanaeth Tai dros nifer o flynyddoedd yn cynnwys y dulliau rhagweithiol ac arloesol a gymerwyd gan y Gwasanaeth Tai i fynd i'r afael â'r her tai ar yr Ynys. Cydnabuwyd rôl y Gwasanaeth yn ogystal o ran gwella cymunedau a'i gyfraniad fel gwasanaeth critigol yn ystod y pandemig. Roedd y Pwyllgor Gwaith yn croesawu Cynllun Busnes y CRT sy'n ychwanegu at weledigaeth y Gwasanaeth i ddarparu gwell tai ar gyfer pobl Ynys Môn.

**Penderfynwyd cymeradwyo Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2022-52.**

## 7. ADRODDIAD CYNNYDD: GWELLA GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn nodi'r cynnydd diweddar ym maes Gwasanaethau i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Roedd yr adroddiad yn amlygu gwelliannau yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac yn y Gwasanaethau Oedolion.

Adroddodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol bod y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol wedi parhau i gwrdd ac yn ddiweddar cafwyd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn nodi'r pellter a deithiwyd ers 2017. Roedd y cyflwyniad yn dangos gwelliant o ran dangosyddion perfformiad yn ogystal â phatrwm o welliannau parhaus. Gan nad oedd y Gwasanaeth yn defnyddio data'n effeithiol yn ôl yn 2017, mae'r data hyd yma'n rhoi darlun gwahanol sy'n rhoi sicrwydd i'r plant mwyaf bregus, eu teuluoedd ac uwch arweinwyr ac aelodau etholedig o'r Cyngor bod eu hanghenion yn dal i gael eu diwallu. Yn ogystal â hyn, mae nifer y plant

sydd yng ngofal yr Awdurdod wedi gostwng o 160, sef y nifer uchaf yn ystod y 6 mis diwethaf, i 144 ar hyn o bryd ac mae hyn o ganlyniad i nifer o ffactorau. Mae'r gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi golygu llawer iawn o waith i weithwyr cymdeithasol y Gwasanaethau a dylid diolch iddynt am y gwaith y maent wedi'i gyflawni i sicrhau cynlluniau cadarn. O ran y Gwasanaethau Oedolion cafwyd partneriaethau effeithiol gyda Thai a'r trydydd Sector a'r gobaith yw ymestyn y perthnasau hyn wrth ddatblygu adnoddau newydd megis y Tai Gofal Ychwanegol. Yn ystod y cyfnod cafodd mynediad rhithiol i gyfleoedd dydd a mynediad at dechnoleg eu cryfhau ac mae hyn wedi gael effaith gadarnhaol ar unigolion gan leihau ynysu cymdeithasol.

Amlygodd y Cadeirydd rai o'r datblygiadau a mentrau penodol yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Oedolion a nodir yn yr adroddiad.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod yr holl oblygiadau statudol yn dal i gael eu cyflawni ac er gwaethaf heriau'r pandemig, mae cynnydd wedi cael ei wneud o safbwynt y rhaglen trawsnewid.  Tra bod rhai meysydd yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers 2017 ac mae'r ddibyniaeth ar staff dros dro hefyd wedi lleihau yn ystod y cyfnod.

Bu i'r Pwyllgor Gwaith gydnabod y cynnydd a wnaed ers 2017 sydd wedi rhoi sylfaen gadarn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac sy'n rhoi'r Gwasanaeth mewn safle cryf i wynebu unrhyw heriau yn y dyfodol. Diolchodd y Pwyllgor Gwaith i staff y Gwasanaethau a gyfrannodd at y cynnydd hwn.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a derbyn sicrwydd bod y cynnydd parhaus sy'n cael ei gyflawni gan yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhesymol ac amserol.**

## 8. STRATEGAETH RHAGLEN GRANT CYMORTH TAI 2022-26

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn cynnwys y Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai 2022-26 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Alun Mummery, Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau a chymeradwyodd y strategaeth i'r Pwyllgor Gwaith.

Cynghorodd y Rheolwr Gwasanaethau Tai (Strategaeth, Comisiynu a Pholisi) bod y Grant Cymorth Tai yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'i fod yn ymgorffori'r rhaglen flaenorol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, sef Cefnogi Pobl; Atal Digartrefedd a Rhentu Doeth Cymru. Y nod yw darparu cymorth tai i bobl fel y gallant gadw a gwneud y mwyaf o'u hannibyniaeth.

Mae'r Strategaeth RhCT yn ofyniad ar Wasanaethau Tai gan Lywodraeth Cymru ac mae'n darparu'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau atal digartrefedd a chymorth tai yn Ynys Môn; mae'n cydnabod y pum thema allweddol ar gyfer atal a amlinellir yn yr adroddiad ac mae'n cyd-fynd â'r Strategaeth Dai. Bydd y Strategaeth RhCT ar waith am y 4 blynedd nesaf a  chynhelir adolygiad canol tymor. Fel rhan o'r gwaith o ffurfioli'r Strategaeth cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus (manylion ar gael) ac mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan o'r strategaeth. Mae cynlluniau cyflawni a gwariant blynyddol ynghlwm â'r Strategaeth RhCT yn ogystal â Chynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym pum mlynedd sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn pontio i wasanaethau digartrefedd Ailgartrefu Cyflym.

Rhoddodd y Cynghorydd Dylan Rees, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol adborth yn dilyn y cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2022 ac adroddodd bod y Pwyllgor yn argymell cymeradwyo'r Strategaeth RhCT a'i fod wedi codi'r mater ynglŷn â'r ddarpariaeth i ffoaduriaid a materion yn ymwneud â digartrefedd.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai 2022-26 a'r Cynllun Cyflawni**
- **Cytuno i'r Cynllun Gwariant arfaethedig yn unol â Chanllawiau a gofyniad GCT Llywodraeth Cymru (a gynhwysir yn Atodiad 3 yn y Cynllun Cyflawni)**
- **Cymeradwyo'r Cynllun Gwaith Pontio Ailgartrefu Cyflym, Ebrill 2022 – Mawrth 2027.**

**9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, ystyriwyd a phenderfynwyd cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.**

**10. YMATEB I'R HER TAI LLEOL – DATBLYGIADAU TAI DROS 10 UNED – STAD PARC Y COED, LLANGEFNI A BRYN GLAS, BRYNSIENCYN**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar gyfer datblygiad tai ym Mharc y Coed, Llangefni a Bryn Glas, Brynsiencyn.

*Yn dilyn derbyn cyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Dros Dro, fe wnaeth y Cynghorwyr Ieuan Williams a Robin Williams ddatgan buddiant rhagfarnus ac yn dilyn hynny fe wnaethant adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar y mater.*

*Fe wnaeth y Cynghorwyr Glyn Haynes a Dafydd Roberts (sydd ddim yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith) hefyd ddatgan diddordeb fel aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gadael y cyfarfod.*

Cyflwynwyd yr adroddiad a'r argymhellion gan Alun Mummery, Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai bod stad Coed y Parc yn ddatblygiad tai preifat gan Parkfield Homes sydd wedi'i leoli yn Lôn Talwrn, Llangefni a'i fod yn cynnwys dros gant o dai newydd. Mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer y datblygiad ac mae'n cynnwys amod Adran 106 sy'n ymrwymo'r datblygwr i ddarparu cyfran o'r datblygiad fel tai fforddiadwy. Mae'r datblygwr yn barod i ddechrau adeiladu'r 12 tŷ fforddiadwy cyntaf ac mae pob un yn eiddo dwy ystafell wely. Mae'r datblygwr wedi cysylltu â'r Gwasanaeth Tai i gynnig gwerthu'r tai fforddiadwy i'r Cyngor; yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith y cam nesaf fydd cytuno ar y telerau gyda'r datblygwr ar gyfer codi'r 12 tŷ Cyngor fforddiadwy gyda'r bwriad o'u gosod fel tai rhent canolradd neu eu gwerthu fel rhan o bolisi Rhannu Ecwiti'r Gwasanaeth. Teimlir bod nifer fawr o ddatblygiadau tai eisoes yn cael eu codi gan Gymdeithasau Tai yn Llangefni ac y dylai deiliadaethau eraill hefyd fod ar gael i drigolion lleol er mwyn diwallu eu hanghenion.

Mae DU Construction wedi cyflwyno cais llawn a chynllun arfaethedig i'r Gwasanaeth Tai ar gyfer codi 12 cartref newydd ar dir ger stad Bryn Glas, Brynsiencyn a fydd yn cynnwys 7 eiddo dwy ystafell wely, 4 eiddo tair ystafell wely ac 1 eiddo pedair ystafell wely. Yn amodol ar dderbyn cymerdwyaeth y Pwyllgor Gwaith ac yn amodol hefyd ar roi caniatâd cynllunio llawn i'r datblygwr, mae'r Gwasanaeth yn bwriadu cynnig deiliadaethau amrywiol yn cynnwys

rhent cymdeithasol, rhent canolradd a gwerthu rhai fel cartrefi newydd drwy Bolisi Rhannu Ecwiti'r Gwasanaeth.

Dengys Prosbectws Tai'r Cyngor bod angen am dai fel y rhai sy'n cael eu cynnig yn Llangefni a Brynsiencyn ac mae'r modelau cychwynnol yn dangos bod y cynlluniau'n ariannol hyfyw.

**Penderfynwyd –**

- **Dirprwyo pwerau i'r Gwasanaeth Tai i symud ymlaen i gytuno ar delerau ar gyfer prynu 12 cartref newydd ar stad Parc y Coed, Llangefni fydd ar gael i'w rhentu neu eu prynu trwy'r Cynllun Rhannu Ecwiti fel tai fforddiadwy gan y Gwasanaeth Tai mewn ymateb i'r her tai lleol.**
- **Ar yr amod bod y datblygwr yn derbyn caniatâd cynllunio llawn ar gyfer y datblygiad arfaethedig, dirprwyo pwerau i'r Gwasanaeth Tai i symud ymlaen i gytuno ar delerau ar gyfer prynu 12 cartref newydd ar dir ger Bryn Glas, Brynsiencyn fydd ar gael i'w rhentu neu eu prynu trwy'r Cynllun Rhannu Ecwiti fel tai fforddiadwy gan y Gwasanaeth Tai mewn ymateb i'r her tai lleol.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFFT

# PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd 15 Mawrth, 2022

**PRESENNOL:** Mrs Annwen Morgan (Prif Weithredwr) (Cadeirydd)

Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol)
Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid)
Cynghorydd Margaret Roberts (Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)
Barbara Jones (Cymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn)
Janw Hughes Evans (Iechyd Plant a Phobl Ifanc BIPBC)
Dylan Williams, Dirprwy Brif Weithredwr
Fôn Roberts (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol),
Rhys Hughes (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc)
Ned Michael (Pennaeth Gwasanaethau Tai)
Huw Owen (Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol)
Clare Owen (Swyddog Adolygu a Diogelu Annibynnol)
Gwyneth Hughes (Uwch Reolwr Lles)
Heulwen Owen (Swyddog Cyswllt Addysg PGA)
Eirian Huws (Ymgynghorydd Personol Gadael Gofal)
Sioned Warren (Voices from Care Cymru)
Rebecca Owen (Rheolwr Tîm TGP Cymru)
Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor)

**YMDDIHEURIADAU:**

Llyr Bryn Roberts (Rheolwr Gwasanaeth – Ymyrraeth Ddwys), Saul Ainsworth (Rheolwr Gwasanaeth Dros Dro – Diogelu), Nia Hardaker (Swyddog Adolygu Annibynnol), Dawn Owen (Swyddog Adolygu Annibynnol), Ffion Roberts (Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal)

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Panel gan ddweud mai hwn oedd ei chyfarfod olaf fel Prif Weithredwr a Chadeirydd y Panel cyn iddi ymddeol. Estynnodd groeso arbennig i'r cyfarfod hwn i'w holynydd fel Prif Weithredwr, Mr Dylan Williams y Dirprwy Brif Weithredwr presennol a diolchodd hefyd i holl aelodau'r Panel am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod ei chyfnod fel Cadeirydd. Pwysleisiodd bwysigrwydd y Panel a'r cyfrifoldebau sy'n cyd-fynd â'r rôl o fod yn rhiant corfforaethol.

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar y 7fed o Ragfyr, 2021 ac fe gadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi o hynny – cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Cynllun Gofal a Chymorth a'r templedi llwybr diwygiedig Rhan 6 bellach mewn defnydd ac y byddant yn cael eu hadolygu o ran eu heffeithiolrwydd a'u hymarferoldeb ymhen

chwe mis mewn ymgynghoriad â'r bobl ifanc a'r staff hynny sydd wedi bod drwy'r broses cynllunio llwybr.

## 3 MATERION YN CODI

Cyflwynwyd Adroddiad Cryno Lleisiau o Ofal Cymru yn cwmpasu cyfnod Medi hyd at Ragfyr 2021 er ystyriaeth y Panel. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed gan Lleisiau o Ofal Cymru gyda'r Grŵp Cyfranogi fel rhan o'r prosiect ar y cyd â Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Ynys Môn i ddatblygu grŵp cyfranogiad misol i helpu i gefnogi Ynys Môn i ddatblygu ei strategaeth PDG a Gadael Gofal a darparu llwyfan sy'n cefnogi adeiladu perthynas rhwng pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a'u rhieni corfforaethol yn Ynys Môn.

Bu i Sioned Warren y Swyddog Datblygu ddiweddaru'r Panel gan gadarnhau bod y prosiect, dros y 3 mis diwethaf, wedi ymgysylltu â chyfanswm o 2 berson ifanc â phrofiad o ofal ledled ardal Ynys Môn trwy gyfanswm o 3 sesiwn. O'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y sesiwn, roedd un o dan 16 oed ac un dros 16 oed. Mae'r ddau berson ifanc hyn wedi mynegi diddordeb mewn parhau i ymgysylltu â'r grŵp lleol. Cyfeiriodd at brif feysydd ffocws fforwm Ynys Môn dros y cyfnod a gwmpesir yn yr adroddiad a'r ymdrechion a wnaed i hyrwyddo'r grŵp ac annog ymgysylltu sydd wedi'u heffeithio gan y pandemig. Er gwaethaf hyn, mae rhai themâu allweddol wedi'u sefydlu ynghylch deall rôl y Panel Rhiantu Corfforaethol, wynebu stigma mewn ysgolion a pherthnasoedd gyda brodyr a chwiorydd. Mewn cyfarfodydd a fynychwyd gan y Swyddog Datblygu, Swyddog Cyswllt Addysg ac Arweinydd Llesiant Ynys Môn cytunwyd hefyd i archwilio cyfleoedd i ymgynghori ag ysgolion ar draws yr Ynys.

Mae'r Swyddog Datblygu yn cydnabod bod angen i'r grŵp lleol gynrychioli'r gymuned ofal gyfan yn Ynys Môn i sicrhau agwedd gyfannol at y ddarpariaeth a chysylltiadau a dywedodd fod gwaith yn cael ei wneud gydag aelodau presennol i archwilio sut y gellir ehangu aelodaeth trwy amrywiol fecanweithiau a dulliau arloesol trwy ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig a gweithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc. Croesewir cefnogaeth yr Awdurdod i ledaenu gwybodaeth i gyrraedd pob oedran yn y gymuned ofal i amlygu bodolaeth y grŵp ac i weithredu fel dull cyfathrebu. Byddai hefyd yn fuddiol i'r Awdurdod rannu themâu y maent yn dymuno ymgynghori arnynt i gefnogi swyddogaeth y grŵp o ddylanwadu a datblygu newid lleol.

Diolchodd y Panel i Sioned Warren am y diweddariad a gwnaethpwyd sylwadau fel a ganlyn –

- Mynegwyd siom nad oedd mwy o blant a phobl ifanc wedi cael eu perswadio i ymuno â'r fforwm i rannu barn am yr hyn sy'n bwysig iddynt. Nododd y Panel fod yn rhaid dod o hyd i ffordd i gyrraedd yr holl blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod a'i bod yn hanfodol bod y Panel yn gallu clywed eu lleisiau a deall eu barn a'u dymuniadau os yw gwasanaethau am gwrdd â'u hanghenion.

- Cydnabuwyd y gallai'r stigma o fod yn rhan o grŵp yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac felly'n cael ei ystyried yn "wahanol" fod yn rhwystr i gyfranogiad. Dywedwyd wrth y Panel bod dulliau eraill yn cael eu hystyried i annog cyfranogiad ac ymgysylltiad â'r plant a phobl ifanc gan gynnwys trwy weithgareddau prif ffrwd a chyswllt â sefydliadau fel Sefydliad Ieuenctid yr Urdd. Nodwyd bod cyfranogiad ystyrlon yn gofyn am agwedd hyblyg ac yn golygu addasu dulliau i ddarganfod beth sy'n gweithio orau.

- Awgrymwyd bod Lleisiau o Ofal yn cysylltu â Chymdeithas Gofal Maeth Ynys Môn trwy gynrychiolydd y Gymdeithas ar y Panel, Barbara Jones fel ffordd arall o godi ymwybyddiaeth o'r fforwm a rhannu gwybodaeth am ei ddiben o ddarparu cyfle i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i fynegi eu barn a dylanwadu ar strategaeth.



DRAFT

- Cydnabuwyd bod angen cryfhau dulliau/sianeli cyfathrebu er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am y fforwm yn cyrraedd y bobl gywir.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad, nodi'r cynnydd hyd yma ac i argymell y camau gweithredu canlynol i symud materion ymlaen –**

- **Swyddog Datblygu Lleisiau o Ofal Cymru Ynys Môn i drafod gyda Barbara Jones y posibilrwydd o godi ymwybyddiaeth o'r fforwm ac ennyn diddordeb ymhlith plant a phobl ifanc trwy Gymdeithas Maethu Môn.**
- **Y swyddogion perthnasol yn y Gwasanaethau Addysg a Phlant a Theuluoedd i drafod ffyrdd o wella cyfathrebu er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am y fforwm yn cael ei lledaenu'n eang ymhlith y gymuned ofal.**
- **Y Swyddog Datblygu i roi diweddariad pellach ar gynnydd i gyfarfod nesaf y Panel.**

## 4 ADRODDIAD SWYDDOGION ADOLYGU ANNIBYNNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn unol â'u dyletswydd statudol i fonitro gweithgarwch yr awdurdod lleol a gweithredu fel rhiant corfforaethol da er ystyriaeth y Panel. Roedd yr adroddiad yn mesur cynnydd parhaus yn erbyn yr argymhellion a wnaed gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol i'r Panel Rhiantu Corfforaethol ym mis Mawrth, 2018 o ran -

- Ansawdd asesiadau Plant sy'n Derbyn Gofal
- Cynlluniau Gofal a Chymorth
- Adolygu a monitro trefniadau
- Ansawdd a chysondeb cadw cofnodion
- Cynllunio parhad

Darparodd Mr Huw Owen y Swyddog Adolygu Annibynnol drosolwg o gynnwys a negeseuon allweddol yr adroddiad ac fe dynnodd sylw at feysydd o welliant parhaus ac arfer da yn ogystal â meysydd i'w datblygu ymhellach. Amlinellwyd hefyd ymateb y Gwasanaeth i'r materion a godwyd a rhoddwyd sicrwydd. Cyfeiriwyd at y modd y cynhaliwyd adolygiadau a chadarnhawyd bod 32 o'r 34 adolygiad a gynhaliwyd rhwng 1 Medi, 2021 a 14 Ionawr, 2022 o fewn yr amserlenni gyda rhesymau dilys pam fod y ddau adolygiad arall y tu allan i'r amserlen. Pwysleisiwyd pwysigrwydd parhad gweithwyr cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gyda sefyllfa'r gweithlu yn cael ei hasesu'n gyffredinol sefydlog ar bwynt yr adroddiad.

Croesawodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad gan nad oedd yn cynnwys unrhyw beth annisgwyl; mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol bod angen gwaith pellach mewn rhai meysydd a bod y rhain yn cael sylw. Roedd yn hyderus bod materion yn symud i'r cyfeiriad cywir a chyfeiriodd yn benodol at sefydlogrwydd y gweithlu gan amlygu bod trosiant gweithwyr cymdeithasol wedi gostwng o 32% yn 2019 i 8% yn 2021.

Trafododd y Panel y canlynol –

- A ddylai'r meysydd a adolygwyd gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol gael statws RAG ar gyfer cynnydd er mwyn amlygu'r meysydd hynny lle mae angen canolbwyntio ar welliant. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y gellid cynnwys adran ychwanegol i ddangos y statws presennol o weithredu/gweithredu. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd nad yw'r data ar ei ben ei hun bob amser yn adrodd y stori gyfan a bod angen ei ategu gyda naratif sy'n cynnwys dadansoddiad o berfformiad o fewn cyd-destun sydd hefyd yn nodi ffactorau a risgiau perthnasol. Gall sicrhau cywirdeb y statws RAG felly fod yn her pan fo ffactorau gwahanol ar waith wrth fesur cynnydd.



DRAFT

- Aeddfedrwydd esblygol adroddiadau Swyddogion Adolygu Annibynnol. Fe wnaeth y Panel gydnabod yr her a ddarparwyd gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol gan gynnwys adborth i'r Panel am gryfderau a gwendidau sy'n galluogi'r Panel i gael sicrwydd gan agweddau ar y gwasanaeth yr aseswyd eu bod yn perfformio'n dda ac i fod yn glir ynghylch meysydd sydd angen eu gwella. Nododd y Panel fod adroddiadau Swyddogion Adolygu Annibynnol bellach hefyd yn nodi ymateb y Gwasanaeth i argymhellion Swyddogion Adolygu Annibynnol gan gynnwys y camau sy'n cael eu rhoi ar waith.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad, nodi'r materion allweddol a nodi hefyd y cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion y Swyddogion Adolygu Annibynnol.**

**5 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH EIRIOLAETH**

Cyflwynwyd adroddiad TGP Cymru yn nodi sut y defnyddiwyd Gwasanaeth Eiriolaeth Gogledd Cymru gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn Ynys Môn yn ystod y flwyddyn Ebrill, 2020 i Fawrth, 2021 er ystyriaeth y Panel.

Cyfeiriodd Rebecca Owen, Rheolwr Tîm at y data cychwynnol fel a ganlyn –

- Gostyngiad o 34% yn nifer y plant sy'n defnyddio Eiriolaeth ar Sail Mater (IBA) o 151 yn 2019/20 i 99 yn 2020/21.
- Gostyngiad o 12% yn nifer y materion yr ymdriniwyd â hwy o 241 yn 2019/20 i 211 yn 2020/21.
- Roedd 80 o'r 100 o blant a phobl ifanc PDG a CP ar Ynys Môn yn 2020/21 yn gymwys ar gyfer y Cynnig Rhagweithiol o Eiriolaeth. Derbyniwyd cyfanswm o 29 o atgyfeiriadau Cynnig Rhagweithiol yn ystod y flwyddyn o gymharu â 47 y llynedd. Roedd hyn yn cyfateb i 64% o blant a phobl ifanc cymwys ar Ynys Môn yn gwrthod y cynnig o gyfarfod eiriolaeth yn ystod y flwyddyn.
- Derbyniodd 20 o blant a phobl ifanc y Cynnig Rhagweithiol yn ystod y flwyddyn o gymharu â 35 y flwyddyn flaenorol.
- Ni gefnogwyd unrhyw ymadawyr gofal yn Ynys Môn o gymharu â 5 y flwyddyn flaenorol.
- Cefnogwyd 8 i wneud cwynion o gymharu â 2 y flwyddyn flaenorol
- O'r 211 o faterion a gyflwynwyd, roedd 127 (40% yn gyffredinol) i gefnogi plant a phobl ifanc mewn cyfarfodydd.
- Gwelwyd pob atgyfeiriad Cynnig Rhagweithiol ac eithrio un o fewn yr amserlen ofynnol. Cwblhaodd deuddeg o bobl ifanc a gaewyd eu hachos yn ystod y flwyddyn ffurflen adolygu a gwerthuso. Dywedodd pawb fod yr eiriolwr wedi gwneud yr hyn yr oeddent yn cytuno y byddent yn ei wneud ac y byddent yn defnyddio'r gwasanaeth eto; Dywedodd 90% eu bod yn teimlo bod eu barn a'u dymuniadau wedi cael eu hystyried yn llawn a dywedodd 90% y byddent yn defnyddio'r gwasanaeth eto.

Diolchodd y Panel i TGP Cymru am y wybodaeth ac i Rebecca Owen am gyflwyno'r adroddiad. Cafodd y Panel sicrwydd o'r data a ddarparwyd bod darpariaeth eiriolaeth annibynnol ar gael i blant a phobl ifanc yr Awdurdod sy'n derbyn gofal a'u bod yn defnyddio'r gwasanaeth pan fyddant yn teimlo bod angen gwneud hynny.

Cytunodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod eiriolaeth yn chwarae rhan bwysig o ran ychwanegu gwerth, dod â materion i sylw'r Gwasanaeth a helpu'r Gwasanaeth i ddysgu o achosion eiriolaeth. Wrth nodi nad oedd unrhyw ymadawyr gofal wedi defnyddio'r gwasanaeth yn y flwyddyn dan sylw, awgrymodd fod Rheolwr Tîm TGP Cymru yn cyfarfod â'r Tîm Gwasanaeth Ôl-ofal i sicrhau bod y Tîm yn ymwybodol ac yn deall rôl y gwasanaeth eiriolaeth.

DRAFT

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad, nodi ei gynnwys ac argymell y camau canlynol-**

- **Rheolwr Tîm TGP Cymru i gwrdd â'r Gwasanaeth Ôl Ofal i godi ymwybyddiaeth o rôl eiriolaeth mewn perthynas â Gadael Gofal**

**6 STRATEGAETH RHIANTU CORFFORAETHOL**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gyflwyniad PowerPoint a oedd yn rhoi cyflwyniad i'r Strategaeth Rhiantu Corfforaethol a'r cyd-destun. Roedd y cyflwyniad yn amlygu ymrwymiadau strategol yr Awdurdod fel rhiant corfforaethol; rolau aelodau etholedig, swyddogion a phartneriaid a nodwyd pum blaenoriaeth allweddol wrth symud ymlaen.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wrth y Panel am yr amserlen arfaethedig ar gyfer cyhoeddi'r Strategaeth a chadarnhaodd fod drafft cyntaf y Strategaeth wedi'i baratoi gyda chefnogaeth Lleisiau o Ofal Cymru. Y bwriad yw cyflwyno'r drafft cychwynnol i gyfarfod Mehefin, 2022 o'r Panel Rhiantu Corfforaethol ar gyfer ymgynghoriad (ar ôl etholiad llywodraeth leol ym mis Mai) gyda'r drafft terfynol i ddilyn yng nghyfarfod y Panel ym mis Medi, 2022.

Pwysleisiodd y Panel bwysigrwydd rhiantu corfforaethol fel dyletswydd y dylai holl staff ac aelodau etholedig y Cyngor fod yn ymwybodol ohoni a'i deall, a rôl yr oedd wedi ceisio'i hyrwyddo fel panel o'r Weinyddiaeth hon. Cyfeiriwyd at broffil y plant a'r bobl ifanc yng ngofal yr Awdurdod ac eglurodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y cyd-destun a'r ffactorau sydd wedi effeithio ar y ffigwr hwn dros y blynyddoedd diwethaf gan amlygu hefyd bod y Gwasanaeth yn gweithio'n galed i helpu plant a phobl ifanc adael gofal yn ddiogel ac yn briodol ac y gall y broses hon fod yn heriol.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r amserlen ar gyfer cyhoeddi'r Strategaeth Rhiantu Corfforaethol.**

**7 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig.**

**8 GWASANAETH GADAEL GOFAL**

Cafwyd cyflwyniad gweledol gan Eirian Huws, Cynghorydd Personol Gadael Gofal o Weithdy Nadolig 2021 a ddaeth â staff, aelodau etholedig a phlant a phobl ifanc mewn gofal at ei gilydd gan roi cyfle iddynt siarad am faterion o bwys iddynt mewn awyrgylch hwyliog ac anffurfiol. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys addurno coed Nadolig lle gallai'r cyfranogwyr hefyd gyfleu negeseuon petaent yn gweld hynny'n well na siarad. Ariannwyd lluniaeth ac addurniadau o gronfa Dydd Gŵyl Dewi a rhoddwyd elw o werthu'r coed Nadolig wedi'u haddurno i elusen dementia a ddewiswyd gan y plant a'r bobl ifanc eu hunain. Roedd yr adborth o'r digwyddiad yn gadarnhaol ac mae digwyddiadau pellach o'r fath ar wahanol themâu wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Diolchodd y Panel i Eirian Huws am y cyflwyniad ac i bawb a fu'n ymwneud â threfnu'r gweithdy Nadolig. Cydnabu'r Panel werth digwyddiadau fel hyn o ran hwyluso ymgysylltu mewn ffordd hamddenol a chyfforddus sy'n llai tebygol o gael ei gyflawni mewn sefyllfa panel ffurfiol.

DRAFT

**9 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig.**

**10 CYNNYDD ADDYSGOL PLANT A PHOBL IFANC SY'N DERBYN GOFAL**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Llesiant (Ysgolion) yn rhoi gwybodaeth ystadegol am gynnydd addysgol y plant a'r bobl ifanc sydd yng ngofal yr Awdurdod i sylw'r Panel. Roedd y dadansoddiad yn canolbwyntio ar a oedd perfformiad ar y trywydd iawn neu'n well, neu a oedd yn destun pryder; presenoldeb yn yr ysgol, nifer y plant sy'n derbyn darpariaeth y tu allan i'r sir a nifer y plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Cafwyd cyflwyniad gan Mr Gwyn Jones o Wasanaeth ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn ar fformat electronig y Cynllun Addysg Personol gan amlygu ei swyddogaethau a'i nodweddion gan gynnwys mynediad i'r wybodaeth ddiweddaraf ar unrhyw adeg y gellir ei defnyddio i olrhain cynnydd.

Hysbyswyd y Panel fod yr adnodd yn cael ei werthfawrogi gan ymarferwyr addysg ac ysgolion a bod diddordeb yn y rhaglen wedi ei ddangos yn ehangach.

Roedd y Panel yn gwerthfawrogi'r wybodaeth a ddarparwyd a nododd y byddai'n ddefnyddiol ar gyfer y dyfodol pe bai'r wybodaeth a gasglwyd gan y rhaglen electronig yn gallu cael ei throsi'n adroddiadau i'r Panel i'w helpu i gael dealltwriaeth well a mwy cynhwysfawr o gynnydd addysgol, cyfyngiadau, a rhwystrau i gyflawniad plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad a'r wybodaeth a ddarparwyd.**

*Wrth ddirwyn busnes y cyfarfod i ben, diolchodd y Cadeirydd i'r Panel a dymuno'n dda o ran gwaith yn y dyfodol. Diolchodd y Panel i Mrs Annwen Morgan am ei harweiniad a'i hymrwymiad yn ei rôl fel Cadeirydd.*

**Mrs Annwen Morgan**
**Cadeirydd**

DRAFT

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 25 Ebrill 2022 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Mai – Rhagfyr 2022;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Ydy'. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| | | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Mai – Rhagfyr 2022 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2022

Diweddarwyd 11 Ebrill 2022

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.



Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2022

Diweddarwyd 11 Ebrill 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Mehefin 2022** | | | |
| 1 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2021/22** | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Dylan J Williams<br>Prif Weithredwr | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br><br>Mehefin 2022 | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2022 | |
| | | | | | | | |
| 2 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |
| 3 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2021/22 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |
| 4 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2021/22 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2022

Diweddarwyd 11 Ebrill 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |
| 6 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | |
| 7 | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>Mehefin 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2022 | Cyngor Llawn<br><br>Dyddiad i'w bennu |
| | | | | **Gorffennaf 2022** | | | |
| 8 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Gorffennaf 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2022

Diweddarwyd 11 Ebrill 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Medi 2022** | | | |
| 9 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2022 | |
| 10 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2022/23 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2022 | |
| 11 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2022 | |
| 12 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2022

Diweddarwyd 11 Ebrill 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2022 | |
| 14 | **Adroddiad Cynnydd: Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol | Panel Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol / Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>Dyddiadau i'w cadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Medi 2022 | |
| | | | | **Hydref 2022** | | | |
| 15 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Hydref 2022 | |
| 16 | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2021/22** | | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>Hydref 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>Hydref 2022 | Cyngor Llawn<br><br>Dyddiad i'w bennu |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2022

Diweddarwyd 11 Ebrill 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Tachwedd 2022** | | | |
| 17 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Tachwedd 2022 | |
| 18 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2022/23 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>Tachwedd 2022 | |
| 19 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Tachwedd 2022 | |
| 20 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Tachwedd 2022 | |

**  Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Mai – Rhagfyr 2022

Diweddarwyd 11 Ebrill 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151 | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Tachwedd 2022 | |
| | | | | **Rhagfyr 2022** | | | |
| 22 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Rhagfyr 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith**<br>**Cyngor Llawn** |
| Dyddiad: | **25 Ebrill, 2022** |
| Pwnc: | **Newidiadau i'r Cyfansoddiad** |
| Aelod(au) Portffolio: | **Dafydd Rhys Thomas** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Rhys Hughes** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Angela Harwood**<br><br>**AngelaHarwood@ynysnom.gov.uk** |
| Aelodau Lleol: | **Mae'n effeithio'r Cyngor i gyd** |

## A –Argymhelliad / argymhellion a rheswm / rhesymau

1. Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell i'r Cyngor ei fod yn mabwysiadu'r newidiadau i'r Cyfansoddiad a amlinellir yn yr adroddiad hwn a bod y Cyngor yn cytuno i wneud y newidiadau a argymhellir.

2. Bod y Cyngor yn cytuno i wneud y newidiadau a argymhellir ac yn dirprwyo pŵer i'r Swyddog Monitro wneud y newidiadau sy'n cael eu hargymell i'r Cyfansoddiad ynghyd ag unrhyw newidiadau ategol neu ganlyniadol sy'n codi.

**Cefndir**

Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") newidiadau i gylch gorchwyl rhai pwyllgorau, yn bennaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Safonau.

Diwygiwyd y Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau hyn ac mae'r prif newidiadau'n ymwneud â'r Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 a 2 yr adroddiad hwn (copiau yn arddangos y newidiadau a copiau glan yn ymgyrffori'r newidiadau).

Yn ogystal, bydd yr adolygiad ffiniau diweddar yn arwain at gynnydd yn nifer y cynghorwyr ar y Cyngor o 30 i 35 ar ôl yr etholiadau. Mae hyn yn golygu y bydd angen cynyddu maint rhai pwyllgorau. Lle ceir dewis, cynigir bod nifer y seddi ar bwyllgorau'n cael eu cynyddu yn gymesur â'r cynnydd yng nghyfanswm yr aelodau etholedig, gyda'r nifer yn cael ei dalgrynnu i fyny lle bo angen.

Mae gan y Cyngor hawl i un uwch gyflog ychwanegol hefyd, ond mater i'r Cyngor newydd fydd ystyried sut i'w ddyrannu.

Mae'r newidiadau hyn wedi'u hamlinellu yn y tabl isod.

| PWYLLGOR | DARPARIAETH FLAENOROL | DARPARIAETH NEWYDD |
|---|---|---|
| Cyngor Llawn | 30 Aelod | 35 Aelod |
| Pwyllgor Gwaith | Hyd at 9 Aelod | Aros yr un fath |
| Pwyllgorau Sgriwtini | 10 Aelod | 12 Aelod |
| Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | 8 Aelod, 1 Aelod Lleyg | 8 Aelod a 4 Aelod Lleyg |
| Pwyllgor Safonau* | 2 Aelod o'r Cyngor Sir, 5 aelod Annibynnol, 2 aelod o gynghorau cymuned | Aros yr un fath |
| Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | 11 Aelod | 13 Aelod |
| Pwyllgor Apeliadau | 10 Aelod | 12 Aelod |
| Apeliadau Ysgolion* | 3 neu 5 Aelod Lleyg | Aros yr un fath |
| Pwyllgor Apeliadau Gwasanaethau Cymdeithasol* | 3 Aelod, Cadeirydd Annibynnol | Aros yr un fath |
| Pwyllgor Penodiadau | 10 Aelod | 12 Aelod |
| Pwyllgor Trwyddedu | 11 Aelod | 13 Aelod |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd* | 14 Aelod, 7 o bob Awdurdod | Aros yr un fath |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Chwarter Aelodau'r Cyngor | 9 Aelod |
| Pwyllgor Ymchwiliadau* | 3 Aelod | Aros yr un fath |
| Pwyllgor Disgyblu* | 3 Aelod | Aros yr un fath |

| |
|---|
| * Nid oes unrhyw newidiadau'n cael eu hargymell gan fod y pwyllgor naill ai'n statudol, yn cyflawni swyddogaeth benodol, gyfyngedig neu ei fod wedi cael ei sefydlu trwy gytundeb ag eraill. |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Gwneud dim. Fodd bynnag, gallai hynny olygu y byddai'r cyngor yn gweithredu'n anghyfreithlon os na fyddai cylch gorchwyl rhai Pwyllgorau'n cael ei newid i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae newid y Cyfansoddiad yn fater sydd wedi'i neilltuo i'r Cyngor llawn. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell y newidiadau hyn i'r Cyngor. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi, mae newid y Cyfansoddiad yn fater sydd wedi'i neilltuo i'r Cyngor llawn. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn yn unol â'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi. Mae newidiadau i'r Cyfansoddiad yn cael eu gwneud gan y Swyddog Monitro ar ôl i'r Cyngor llawn eu cymeradwyo. |

| Dd – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys | Mae'n sicrhau fod y Cyngor yn gweithredu'n gyfreithlon |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | NA |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | Na |

| Dd – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 5 | Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg. | Ni ragwelir unrhyw effaith |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. | Ni ragwelir unrhyw effaith |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith posib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg ddim llai ffafriol na'r Saesneg. | Mae'r Cyfansoddiad ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Derbyn |
| 2 | Swyddog Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Derbyn |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Awdur yr Adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F – Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyda'r newidiadau wedi eu hamlygu.<br>Atodiad 2 Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau gyda'r newidiadau wedi'u hamlygu |

| Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |

**Atodiad 1**

**3.4.8 Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Cylch Gorchwyl**

**3.4.8.1 Datganiad o bwrpas**

3.4.8.1.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o lywodraethiant corfforaethol y Cyngor. Mae'n darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail i lywodraethiant a safonau ariannol da.

3.4.8.1.2 Pwrpas y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw darparu sicrwydd annibynnol i aelodau'r Cyngor llawn (*'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*) o ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol, ~~perfformiad panelau,~~ a chywirdeb y prosesau adrodd ariannol a llywodraethiant. Mae'n goruchwylio archwiliad mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, gan helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol yn eu lle. Mae hefyd yn adolygu ac yn asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol ac yn gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol

3.4.8.1.3 Mae gwahaniad clir rhwng rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a phwyllgorau sgriwtini. Fel rhan o rôl y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae'n ceisio sicrwydd bod rheolaethau mewnol y cyngor yn gweithio ac yn rheoli risgiau'n effeithiol, yn hytrach na chraffu ar weithgareddau.

3.4.8.1.4 Mae hefyd yn derbyn sylwadau ar adroddiad asesu blynyddol y cyngor ac adroddiad y panel asesu perfformiad.

**3.4.8.2 Cyfansoddiad a threfniadau**

3.4.8.2.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gorff anweithredol a sefydlwyd dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac mae'n bwyllgor cwbl gyfansoddiadol o'r Cyngor sy'n gweithredu ar lefel strategol. Bydd y pwyllgor yn arwain ei fusnes yn anwleidyddol ac mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolau sy'n ymwneud â chydbwysedd gwleidyddol, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

3.4.8.2.2 Bydd y pwyllgor yn cynnwys traean o aelodau lleyg; pedwar aelod lleyg ac wyth aelod etholedig ~~ac un aelod lleyg~~. Bydd cydbwysedd gwleidyddol o ran yr aelodau etholedig ac ni fyddant yn aelodau o'r pwyllgor gwaith, ond mae'n ofynnol i'r Aelod Portffolio Cyllid, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor. Bydd y Cadeirydd yn aelod lleyg ac ni fydd yr ~~a'r is~~ Is-~~-G~~gadeirydd yn aelod o'r pwyllgor gwaith na'n gynorthwyydd i'r pwyllgor gwaith ~~yn argymell penodi'r un aelod lleyg i'r pwyllgor archwilio~~. Bydd yr aelodau lleyg yn gwasanaethu am gyfnod penodol i gyd-fynd â hyd tymor y Cyngor, h.y. pum mlynedd, a byddant yn gwasanaethu am ddau dymor. Mae'r holl aelodau, gan gynnwys yr aelodau lleyg, yn ddarostyngedig i Gôd Ymddygiad y Cyngor a byddant yn datgan unrhyw fuddiannau. Bydd gan yr aelodau lleyg statws cyfartal â'r aelodau etholedig o ran mynediad i staff a gwybodaeth, at ddibenion y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

3.4.8.2.3 ~~Gall~~Rhaid i ~~g~~gadeirydd y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn ~~gynghorydd neu'n~~ aelod lleyg. ~~, ond ni chaiff fod yn aelod o grŵp sy'n ffurfio rhan o bwyllgor gwaith y cyngor, ac eithrio pan fo pob grŵp yn cael ei gynrychioli ar y pwyllgor gwaith (ac yn yr~~

~~achos hwnnw, ni ddylai'r cadeirydd fod yn aelod o'r pwyllgor gwaith).~~ Bydd aelodau'r pwyllgor yn penderfynu ar G~~g~~adeirydd ac I~~i~~s-gadeirydd y pwyllgor. Bydd gan bob aelod o'r pwyllgor, gan gynnwys yr aelodau lleyg, bleidlais.

3.4.8.2.4 Rhaid i unrhyw swyddog neu aelod sy'n cael cais i fynychu cyfarfod pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wneud hynny. Rhaid iddynt ateb unrhyw gwestiynau a ofynnir iddynt, ac eithrio rhai y gallent wrthod eu hateb os oeddent yn y llys. Gall y pwyllgor wahodd eraill i fynychu, ond nid oes unrhyw reidrwydd ar unrhyw berson arall a wahoddir i fynychu i wneud hynny.

3.4.8.2.5. Bydd y pwyllgor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn a rhaid iddo gwrdd os yw'r cyngor llawn yn penderfynu bod angen, neu os yw o leiaf draean o aelodau'r pwyllgor yn gofyn i'r Cadeirydd gynnal cyfarfod. Bydd y cyngor yn cyhoeddi dyddiadau'r pwyllgor yn flynyddol ond gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl disgresiwn y Cadeirydd os rhoddir y nifer o ddyddiau angenrheidiol a bod yr agenda yn cael ei chyhoeddi cyn y cyfarfod, yn unol â'r rheoliadau.

3.4.8.2.6 Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, fel y swyddog sy'n gyfrifol am weinyddiaeth ariannol, yn cynghori'r pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn darparu cefnogaeth effeithiol i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 a fydd, o ganlyniad, yn cael mynediad uniongyrchol a dirwystr i'r pwyllgor.

3.4.8.2.7 Gall y pwyllgor gomisiynu gwaith gan yr archwilwyr allanol a mewnol a bydd y ddau yn cynghori'r Pwyllgor. Yn ogystal, gall y Pwyllgor geisio cyngor annibynnol o'r tu allan i'r Cyngor, o fewn y gyllideb a gymeradwywyd.

3.4.8.2.8 Mae gan archwilwyr allanol a mewnol y Cyngor yr hawl i ofyn i gadeirydd y pwyllgor ystyried unrhyw fater y dylid, ym marn yr archwilwyr, ei ddwyn at sylw'r Cyngor.

3.4.8.2.9 Bydd pob aelod newydd yn derbyn cyflwyniad llawn i'r pwyllgor. Bydd gan aelodau ddisgrifiadau rôl a byddant yn adolygu eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy broses hunanasesu. Byddant yn derbyn hyfforddiant parhaus priodol yn eu rôl yn unol â rhaglen hyfforddi flynyddol a byddant yn derbyn sesiynau briffio rheolaidd ar ddeddfwriaeth newydd, canllawiau proffesiynol ac ymchwil.

**3.4.8.3 Trefniadau atebolrwydd**

3.4.8.3.1 Bydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl i'r cyngor llawn *('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu')* yn flynyddol, ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor; trefniadau adrodd ariannol, ymdrin â chwynion a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.

3.4.8.3.2 Bydd y pwyllgor yn adrodd i'r cyngor llawn *('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu')* yn flynyddol ar effeithiolrwydd y pwyllgor wrth gyflawni ei bwrpas a'i gylch gorchwyl cytunedig. Bydd hunanasesiad rheolaidd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cynllunio rhaglen waith y pwyllgor archwilio a chynlluniau hyfforddi a bydd yn llywio adroddiad blynyddol y pwyllgor.

3.4.8.3.3 Mae'r pwyllgor yn ddarostyngedig i drefniadau arferol sy'n ymwneud â bod yn agored. Cynhelir cyfarfodydd yn gyhoeddus, cyhoeddir rhaglenni ac adroddiadau ac

maent ar gael i'w harchwilio. Yr eithriad i hyn yw lle mae 'eitemau eithriedig' yn cael eu hystyried, sef materion sydd yn bennaf yn cynnwys trafodaethau ynghylch unigolion a enwir neu sy'n cyfeirio at faterion busnes y Cyngor a allai niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, yn ariannol ac yn gyfreithlon.

**3.4.8.4 Llywodraethu**

3.4.8.4.1 Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn erbyn y fframwaith llywodraethiant da1, gan gynnwys y fframwaith moesegol, a bydd yn ystyried y cod llywodraethu lleol.

3.4.8.4.2 Bydd y pwyllgor yn adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) cyn gofyn am gymeradwyaeth y cyngor llawn ac yn ystyried a yw'n briodol adlewyrchu'r amgylchedd risg a'r sicrwydd ategol, gan ystyried barn y gwasanaeth archwilio mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor.

3.4.8.4.3 Bydd y pwyllgor yn adolygu ymateb drafft y cyngor a'r pwyllgor gwaith i asesiad o berfformiad gan banel ac, os yw'n briodol, bydd yn gwneud argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb drafft. Amlinellir y drefn ar gyfer yr adolygiad hwn ym mharagraff 3.4.8.16.

3.4.8.4.4 Bydd y pwyllgor yn adolygu adroddiad hunanasesu blynyddol y cyngor ac, os yw'n briodol, bydd yn gwneud argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r adroddiad. Amlinellir y drefn ar gyfer yr adolygiad hwn ym mharagraff 3.4.8.15.

Formatted: Underline, Font color: Custom Color(RGB(165,0,33))

3.4.8.4.53 Bydd y pwyllgor yn helpu'r cyngor i weithredu gwerthoedd llywodraethu moesegol. Bydd yn hyrwyddo mesurau i wella tryloywder ac atebolrwydd ac adroddiadau cyhoeddus effeithiol i randdeiliaid yr awdurdod a'r gymuned leol. Fel rhan o'i adolygiad o drefniadau llywodraethu, bydd yn sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i orfodi ymrwymiad cryf i werthoedd moesol a chydymffurfiad cyfreithiol ar bob lefel.

3.4.8.4.64 Bydd y pwyllgor yn adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd sydd ar gael ar gyfer partneriaethau neu drefniadau cydweithio o bwys.

**3.4.8.5 Rheoli Trysorlys**

3.4.8.5.1 Mae'r cyngor llawn wedi enwebu'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau craffu effeithiol ar strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys.

3.4.8.5.2 Bydd y pwyllgor yn ymgymryd â rôl archwilio yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA, cyn ei gymeradwyo gan y cyngor llawn. Lle mae'n ymgymryd â'r rôl graffu hon, bydd yn ymdrechu i ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion trysorlys ymhlith yr aelodau.

3.4.8.5.3 Bydd y pwyllgor yn adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau rheoli trysorlys er mwyn bodloni ei hun fod y rheolaethau'n foddhaol. Bydd yn derbyn adroddiadau bob chwe mis ar weithgareddau, materion a thueddiadau i gefnogi dealltwriaeth y pwyllgor o weithgareddau rheoli trysorlys.

3.4.8.5.4 Bydd y pwyllgor yn adolygu proffil a phrosesau risg y trysorlys, a bydd yn adolygu'r sicrwydd a roddir ynghylch rheoli trysorlys.

**3.4.8.6 Gwerth am arian**

3.4.8.6.1 Bydd y pwyllgor yn cefnogi datblygu trefniadau cadarn i sicrhau bod y cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau a bod trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwerth rhagorol am arian.

3.4.8.6.2 Bydd y pwyllgor yn adolygu ymagwedd gyffredinol y cyngor tuag at werth am arian ac yn asesu a yw'n cyd-fynd ag amcanion llywodraethu a'r sicrwydd ynghylch hyn i ategu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.6.3 Bydd y pwyllgor yn ystyried sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn, yn enwedig adroddiadau gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru.

**3.4.8.7 Fframwaith sicrwydd**

3.4.8.7.1 Bydd y pwyllgor yn ystyried fframwaith sicrwydd y cyngor ac yn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â risgiau a blaenoriaethau'r cyngor yn ddigonol. Bydd hyn yn gymorth i gefnogi'r pwyllgor wrth iddo gymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg trwy nodi i ba raddau y bydd yn dibynnu ar archwiliad mewnol am ei ofynion sicrwydd.

3.4.8.7.2 Bydd y pwyllgor yn sicrhau bod eglurder ynghylch y sicrwydd a ddarperir, bod cyfrifoldeb yn cael ei ddyrannu'n glir ar gyfer darparu sicrwydd ac osgoi dyblygu.

**3.4.8.8 Rheoli risg**

3.4.8.8.1 Bydd sicrwydd dros reoli risg yn elfen allweddol sy'n sail i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. I'r perwyl hwn, bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu datblygiad a gweithrediad rheolaeth risg effeithiol yn y cyngor. Yn benodol, bydd yn:

- Goruchwylio polisi a strategaeth rheoli risg yr awdurdod, a'u gweithredu'n ymarferol
- Goruchwylio'r modd y caiff rheoli risg ei integreiddio i brosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau'r sefydliad
- Adolygu'r trefniadau i gydlynu a rheoli risgiau, gan gynnwys y broses a'r llinellau adrodd
- Adolygu'r proffil risg, cadw i fyny â meysydd sylweddol o risgiau strategol a risgiau gweithredol a phrosiectau mawr
- Adolygu'r sicrwydd sydd ar gael ar gyfer rheoli risgiau partneriaeth, gan gynnwys proffil risg y Cyngor fel rhan o'r bartneriaeth
- Adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol a cheisio sicrwydd bod y rheolwyr yn cymryd perchenogaeth briodol ac yn rheoli risgiau yn effeithiol
- Mofyn sicrwydd bod asesiadau risg digonol yn cefnogi strategaethau a pholisïau a bod risgiau yn cael eu rheoli a'u monitro'n weithredol.
- Dilyn i fyny a monitro risgiau a nodwyd gan archwilwyr ac arolygwyr i sicrhau eu bod wedi'u hintegreiddio i'r broses rheoli risg
- Cefnogi datblygiad ac ymgorffori arferion da yn y maes rheoli risg.

**3.4.8.9 Mynd i'r afael â thwyll a llygredd**

3.4.8.9.1 Bydd y pwyllgor yn adolygu effeithiolrwydd trefniadau chwythu chwiban y cyngor, gan gynnwys y polisi.

3.4.8.9.2 Bydd y pwyllgor yn monitro'r strategaeth, y camau gweithredu a'r adnoddau atal twyll a llygredd, er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd â'r arferion, y safonau llywodraethu a'r ddeddfwriaeth a argymhellir.

3.4.8.9.3. Bydd y pwyllgor yn adolygu'r asesiad o risgiau twyll a niwed posibl i'r cyngor yn sgil twyll a llygredd. Bydd yn adolygu'r proffil risg twyll er mwyn deall lefel y risg o dwyll y mae'r awdurdod yn agored iddo a'r goblygiadau i'r amgylchedd rheoli ehangach.

3.4.8.9.4 Bydd yn goruchwylio unrhyw feysydd sylweddol o dwyll, a nodir mewn adroddiad blynyddol gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, ac yn monitro cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau rheoli.

**3.4.8.10 Archwiliad mewnol**

3.4.8.10.1 Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae gofyniad penodol i'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y cyngor.

3.4.8.10.2 Rôl y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas ag archwilio mewnol fydd:

- goruchwylio ei annibyniaeth, ei wrthrychedd, ei berfformiad a'i broffesiynoldeb
- cefnogi effeithiolrwydd y broses archwilio fewnol
- hyrwyddo defnydd effeithiol o archwiliad mewnol o fewn y fframwaith sicrwydd.

3.4.8.10.3 Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r siarter archwilio mewnol, sy'n diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y gweithgaredd archwilio mewnol.

3.4.8.10.4 Os yw'n berthnasol, bydd yn adolygu cynigion ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â phenodi darparwyr allanol a all ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol.

3.4.8.10.5 Bydd y pwyllgor yn cymeradwyo (ond ddim yn rheoli) y strategaeth archwilio fewnol sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys anghenion archwilio mewnol o ran adnoddau a'r defnydd o ffynonellau sicrwydd eraill. Bydd ganddo ddealltwriaeth dda o'r lefel o sicrwydd y mae rheoli risg yn ei ddarparu pan fydd yn adolygu'r strategaeth archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg. Bydd y pwyllgor yn cymeradwyo newidiadau interim sylweddol i'r strategaeth.

3.4.8.10.6 Bydd y pwyllgor yn gwneud ymholiadau priodol i reolwyr a'r pennaeth archwilio mewnol i benderfynu a oes unrhyw sgôp amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau.

3.4.8.10.7 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol gan y pennaeth archwilio mewnol ar berfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol, gan gynnwys perfformiad darparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol.

3.4.8.10.8 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol a'r farn ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn. Bydd y rhain yn cynorthwyo'r pwyllgor wrth iddo adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.10.9 Bydd y pwyllgor yn ystyried y datganiad yn yr adroddiad blynyddol ar lefel y gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a chanlyniadau'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella sy'n cefnogi'r datganiad - bydd y rhain yn nodi dibynadwyedd casgliadau’r archwilwyr mewnol.

3.4.8.10.10 Bydd y pwyllgor yn ystyried diweddariadau ar waith archwilio mewnol gan gynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n peri pryder, ymatebion gan reolwyr a chamau gweithredu o ganlyniad i waith archwilio mewnol. Bydd yn ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnir amdanynt, gan gynnwys effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a bydd yn monitro gweithrediad y camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

3.4.8.10.11 Bydd y pwyllgor yn derbyn adroddiadau yn amlinellu'r camau a gymerwyd lle mae’r pennaeth archwilio mewnol wedi dod i'r casgliad bod y rheolwyr wedi derbyn risg ar lefel a allai fod yn annerbyniol i'r awdurdod neu fod pryderon ynghylch cynnydd o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt.

3.4.8.10.12 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar achosion lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a’r Nodyn Cymhwysiad Llywodraeth Leol, gan ystyried a yw'r diffyg cydymffurfiaeth yn ddigon arwyddocaol fel bod rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.10.13 Bydd y pwyllgor yn ystyried, yn cymeradwyo ac, yn achlysurol, yn adolygu unrhyw ddulliau diogelu sydd wedi cael eu sefydlu i gyfyngu ar rwystrau i annibyniaeth a gwrthrychedd sydd gan y pennaeth archwilio mewnol yn deillio o rolau neu gyfrifoldebau ychwanegol sydd y tu allan i’r maes archwilio mewnol.

3.4.8.10.14. Bydd y pwyllgor yn cyfrannu at y Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella ac, yn benodol, at yr asesiad ansawdd allanol o archwiliad mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd yn goruchwylio cymwysterau ac annibyniaeth yr asesydd.

3.4.8.10.15 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd archwiliad mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, lle bo angen gwneud hynny yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

3.4.8.10.16 Bydd y pwyllgor yn cefnogi datblygiad dulliau cyfathrebu effeithiol â’r pennaeth archwilio mewnol. Mae'r ymgysylltiad rhwng y pennaeth archwilio mewnol a'r pwyllgor archwilio yn elfen hanfodol o ddarparu gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol.

3.4.8.10.17 Bydd y pwyllgor yn darparu mynediad rhydd a cwbl ddirwystr i gadeirydd y pwyllgor archwilio ar gyfer y pennaeth archwilio mewnol, gan gynnwys y cyfle i gyfarfod yn breifat gyda'r pwyllgor.

**3.4.8.11 Archwiliad allanol**

3.4.8.11.1 Bydd y pwyllgor yn cefnogi annibyniaeth a gwrthrychedd archwiliad allanol trwy ystyried asesiad blynyddol yr archwilydd annibynnol o'i annibyniaeth.

3.4.8.11.2 Bydd y pwyllgor yn ystyried llythyr blynyddol yr archwilydd allanol a'r adroddiad i'r *'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*. Bydd yn cyfrannu at ymateb y cyngor i'r llythyr archwilio blynyddol.

3.4.8.11.3 Bydd y pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio allanol, yn rhoi sylwadau ar sgôp a dyfnder y gwaith archwilio allanol ac yn sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a bydd yn monitro eu hargymhellion.

3.4.8.11.4 Bydd y pwyllgor yn cynghori ac yn argymell effeithiolrwydd y berthynas rhwng archwiliadau allanol a mewnol ac asiantaethau arolygu eraill neu gyrff perthnasol.

3.4.8.11.5 Bydd cyfle i'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gwrdd yn breifat ac ar wahân gyda'r archwiliwr allanol, yn annibynnol o'r swyddogion hynny y mae'n rhaid i'r archwilydd gynnal perthynas waith â hwy.

**3.4.8.12 Adrodd ariannol**

3.4.8.12.1 Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn craffu ar faterion ariannol y cyngor, gan wneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â hwy.

3.4.8.12.2 Bydd y pwyllgor yn adolygu, cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y cyngor llawn, ddatganiadau ariannol blynyddol yr awdurdod, gan gynnwys y rhagair esboniadol, negeseuon allweddol, tueddiadau, cysondeb â pherfformiad ariannol, addasrwydd a chydymffurfiaeth â pholisïau a thriniaethau cyfrifyddu a meysydd dyfarnu pwysig.

3.4.8.12.3 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad yr archwilydd allanol i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' ar faterion sy'n deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon ac a oes angen eu dwyn i sylw'r cyngor ai peidio.

**3.4.8.13 Rheoleiddwyr ac arolygwyr eraill**

3.4.8.13.1 Bydd y pwyllgor yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan unrhyw reoleiddwyr neu arolygwyr eraill, a fydd yn ffynhonnell sicrwydd ddefnyddiol. O ran y rhain, bydd yr awdurdod yn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu diangen rhwng y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac unrhyw bwyllgor trosolwg a sgriwtini wrth ystyried adroddiadau o'r fath.

**3.4.8.14 Delio â Chwynion**

3.4.8.14.1 Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol.

3.4.8.14.2 Bydd y pwyllgor yn gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol

**3.4.8.15 ~~Panel Perfformiad~~Adroddiad Hunanasesu**

3.4.8.15.1 Bob blwyddyn ariannol, bydd y pwyllgor yn derbyn drafft o adroddiad hunanasesu'r cyngor [i'w ddrafftio yn unol â Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad a llywodraethu'r prif gynghorau)]

3.4.8.15.2 Bydd y pwyllgor yn derbyn yr adroddiad drafft gan y cyngor cyn pen pedair wythnos i'r cyngor wneud yr adroddiad.

3.4.8.15.3 Bydd y pwyllgor yn adolygu'r adroddiad drafft a chaiff argymell newidiadau i'r casgliadau, neu i unrhyw beth a gynhwysir gan y cyngor o ran y camau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu y mae eisoes wedi'u cymryd, er mwyn cynyddu i ba raddau y bydd yn cwrdd â'r gofyniad perfformiad yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

3.4.8.15.4 Rhaid cynnwys unrhyw argymhelliad a wneir gan y pwyllgor, ond na chafodd ei fabwysiadu gan y cyngor cyn cyhoeddi, yn yr adroddiad gyda rhesymau pam nad yw'r cyngor wedi gwneud y newidiadau a argymhellir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**3.4.8.16 Asesiad o berfformiad gan Banel**

3.4.8.16.1 O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Formatted: Font: Not Bold

3.4.8.16.2 Rhaid i'r cyngor gyhoeddi adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel o leiaf chwe mis cyn dyddiad yr etholiad cyffredin nesaf.

3.4.8.16.3 Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

3.4.8.16.4 Os nad yw'r cyngor yn gwneud newid a argymhellwyd gan y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, mae'n rhaid iddo nodi'r argymhelliad yn ei ymateb terfynol a'r rhesymau pan na wnaethpwyd y newid ganddo.

Formatted: Font: Not Bold, Underline, Font color: Custom Color(RGB(165,0,33))

**3.4.8.17 Archwiliad Arbennig gan yr Archwilydd Cyffredinol**

3.4.8.17.1~~15.5~~ Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad arbennig (gan ei fod o'r farn nad yw'r cyngor, neu efallai nad yw'r cyngor, yn cwrdd â'i ofynion perfformiad), a bod adroddiad yn cael ei anfon at y cyngor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn adroddiad o'r fath, rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

3.4.8.17.2~~15.6~~ Pe bai gofyn i'r cyngor ymateb i adroddiad a gyhoeddir yn unol â pharagraff 3.4.8.16~~115.5~~ uchod, rhaid i'r cyngor sicrhau bod drafft o'r ymateb ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhaid i'r pwyllgor adolygu'r ymateb drafft a chaiff wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r datganiad a wnaed mewn ymateb i ba gamau, os o gwbl, y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol.

3.4.8.17.3~~15.7~~ Rhaid cynnwys unrhyw argymhelliad a wneir gan y pwyllgor, ond na chafodd ei fabwysiadu gan y cyngor cyn cyhoeddi, yn yr ymateb gyda rhesymau pam nad

yw'r cyngor wedi gwneud y newidiadau a argymhellir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

### 3.4.8.15.8 Atodiad A – Adroddiadau, Rheoliadau a Pholisïau a Ystyriwyd

- *Pwyllgorau Archwilio: Canllawiau Ymarferol ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu*, CIPFA, 2018, ar gael o www.cipfa.org.uk/publications
- *Datganiad Sefyllfa: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu* , CIPFA, 2018, ar gael o www.cipfa.org.uk/publications
- *Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus* (PSIAS) a'r *Nodyn Cymhwysiad Llywodraeth Leol* ategol ar gyfer Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y Deyrnas Unedig (LGAN)
- Siarter Archwilio Mewnol Chwefror 2021
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yn benodol, Adran 85
- Canllawiau Statudol o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Llywodraeth Cymru, 2012
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014
- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018
- *Datganiad ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaethau Cyhoeddus*, CIPFA, 2019
- *Datganiad ar Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol*, CIPFA, 2016
- *Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Côd Ymarfer a Nodiadau Cyfarwyddyd Traws-Sectoraidd* , CIPFA, Argraffiad 2017
- *Côd Ymarfer ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd* , CIPFA, 2014
- Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Formatted: No bullets or numbering

Formatted: Justified, Bulleted + Level: 1 + Aligned at: 0 cm + Indent at: 0.63 cm, Don't allow hanging punctuation, Don't adjust space between Latin and Asian text, Don't adjust space between Asian text and numbers, Font Alignment: Baseline

**Atodiad 1**

### 3.4.8 Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Cylch Gorchwyl

### 3.4.8.1 Datganiad o bwrpas

3.4.8.1.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o lywodraethiant corfforaethol y Cyngor. Mae'n darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail i lywodraethiant a safonau ariannol da.

3.4.8.1.2 Pwrpas y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw darparu sicrwydd annibynnol i aelodau'r Cyngor llawn (*'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*) o ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol, a chywirdeb y prosesau adrodd ariannol a llywodraethiant. Mae'n goruchwylio archwiliad mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, gan helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol yn eu lle. Mae hefyd yn adolygu ac yn asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol ac yn gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol

3.4.8.1.3 Mae gwahaniad clir rhwng rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a phwyllgorau sgriwtini. Fel rhan o rôl y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae'n ceisio sicrwydd bod rheolaethau mewnol y cyngor yn gweithio ac yn rheoli risgiau'n effeithiol, yn hytrach na chraffu ar weithgareddau.

3.4.8.1.4 Mae hefyd yn derbyn sylwadau ar adroddiad asesu blynyddol y cyngor ac adroddiad y panel asesu perfformiad.

### 3.4.8.2 Cyfansoddiad a threfniadau

3.4.8.2.1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gorff anweithredol a sefydlwyd dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac mae'n bwyllgor cwbl gyfansoddiadol o'r Cyngor sy'n gweithredu ar lefel strategol. Bydd y pwyllgor yn arwain ei fusnes yn anwleidyddol ac mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolau sy'n ymwneud â chydbwysedd gwleidyddol, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

3.4.8.2.2 Bydd y pwyllgor yn cynnwys traean o aelodau lleyg; pedwar aelod lleyg ac wyth aelod etholedig. Bydd cydbwysedd gwleidyddol o ran yr aelodau etholedig ac ni fyddant yn aelodau o'r pwyllgor gwaith, ond mae'n ofynnol i'r Aelod Portffolio Cyllid, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor. Bydd y Cadeirydd yn aelod lleyg ac ni fydd yr Is-Gadeirydd yn aelod o'r pwyllgor gwaith na'n gynorthwyydd i'r pwyllgor gwaith. Bydd yr aelodau lleyg yn gwasanaethu am gyfnod penodol i gyd-fynd â hyd tymor y Cyngor, h.y. pum mlynedd, a byddant yn gwasanaethu am ddau dymor. Mae'r holl aelodau, gan gynnwys yr aelodau lleyg, yn ddarostyngedig i Gôd Ymddygiad y Cyngor a byddant yn datgan unrhyw fuddiannau. Bydd gan yr aelodau lleyg statws cyfartal â'r aelodau etholedig o ran mynediad i staff a gwybodaeth, at ddibenion y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

3.4.8.2.3 Rhaid i gadeirydd y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelod lleyg. Bydd aelodau'r pwyllgor yn penderfynu ar Gadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor. Bydd gan bob aelod o'r pwyllgor, gan gynnwys yr aelodau lleyg, bleidlais.

3.4.8.2.4  Rhaid i unrhyw swyddog neu aelod sy'n cael cais i fynychu cyfarfod pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wneud hynny. Rhaid iddynt ateb unrhyw gwestiynau a ofynnir iddynt, ac eithrio rhai y gallent wrthod eu hateb os oeddent yn y llys. Gall y pwyllgor wahodd eraill i fynychu, ond nid oes unrhyw reidrwydd ar unrhyw berson arall a wahoddir i fynychu i wneud hynny.

3.4.8.2.5. Bydd y pwyllgor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn a rhaid iddo gwrdd os yw'r cyngor llawn yn penderfynu bod angen, neu os yw o leiaf draean o aelodau'r pwyllgor yn gofyn i'r Cadeirydd gynnal cyfarfod. Bydd y cyngor yn cyhoeddi dyddiadau'r pwyllgor yn flynyddol ond gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl disgresiwn y Cadeirydd os rhoddir y nifer o ddyddiau angenrheidiol a bod yr agenda yn cael ei chyhoeddi cyn y cyfarfod, yn unol â'r rheoliadau.

3.4.8.2.6 Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151, fel y swyddog sy'n gyfrifol am weinyddiaeth ariannol, yn cynghori'r pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn darparu cefnogaeth effeithiol i’r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 a fydd, o ganlyniad, yn cael mynediad uniongyrchol a dirwystr i'r pwyllgor.

3.4.8.2.7 Gall y pwyllgor gomisiynu gwaith gan yr archwilwyr allanol a mewnol a bydd y ddau yn cynghori'r Pwyllgor. Yn ogystal, gall y Pwyllgor geisio cyngor annibynnol o’r tu allan i'r Cyngor, o fewn y gyllideb a gymeradwywyd.

3.4.8.2.8 Mae gan archwilwyr allanol a mewnol y Cyngor yr hawl i ofyn i gadeirydd y pwyllgor ystyried unrhyw fater y dylid, ym marn yr archwilwyr, ei ddwyn at sylw'r Cyngor.

3.4.8.2.9 Bydd pob aelod newydd yn derbyn cyflwyniad llawn i'r pwyllgor. Bydd gan aelodau ddisgrifiadau rôl a byddant yn adolygu eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy broses hunanasesu. Byddant yn derbyn hyfforddiant parhaus priodol yn eu rôl yn unol â rhaglen hyfforddi flynyddol a byddant yn derbyn sesiynau briffio rheolaidd ar ddeddfwriaeth newydd, canllawiau proffesiynol ac ymchwil.

**3.4.8.3 Trefniadau atebolrwydd**

3.4.8.3.1 Bydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl i'r cyngor llawn *('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu')* yn flynyddol, ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor; trefniadau adrodd ariannol, ymdrin â chwynion a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.

3.4.8.3.2 Bydd y pwyllgor yn adrodd i'r cyngor llawn *('y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu')* yn flynyddol ar effeithiolrwydd y pwyllgor wrth gyflawni ei bwrpas a'i gylch gorchwyl cytunedig. Bydd hunanasesiad rheolaidd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi cynllunio rhaglen waith y pwyllgor archwilio a chynlluniau hyfforddi a bydd yn llywio adroddiad blynyddol y pwyllgor.

3.4.8.3.3 Mae'r pwyllgor yn ddarostyngedig i drefniadau arferol sy’n ymwneud â bod yn agored. Cynhelir cyfarfodydd yn gyhoeddus, cyhoeddir rhaglenni ac adroddiadau ac maent ar gael i'w harchwilio. Yr eithriad i hyn yw lle mae 'eitemau eithriedig' yn cael eu hystyried, sef materion sydd yn bennaf yn cynnwys trafodaethau ynghylch unigolion a enwir neu sy'n cyfeirio at faterion busnes y Cyngor a allai niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, yn ariannol ac yn gyfreithlon.

### 3.4.8.4 Llywodraethu

3.4.8.4.1 Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn erbyn y fframwaith llywodraethiant da, gan gynnwys y fframwaith moesegol, a bydd yn ystyried y cod llywodraethu lleol.

3.4.8.4.2 Bydd y pwyllgor yn adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) cyn gofyn am gymeradwyaeth y cyngor llawn ac yn ystyried a yw'n briodol adlewyrchu'r amgylchedd risg a'r sicrwydd ategol, gan ystyried barn y gwasanaeth archwilio mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor.

3.4.8.4.3 Bydd y pwyllgor yn adolygu ymateb drafft y cyngor a'r pwyllgor gwaith i asesiad o berfformiad gan banel ac, os yw'n briodol, bydd yn gwneud argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb drafft. Amlinellir y drefn ar gyfer yr adolygiad hwn ym mharagraff 3.4.8.16.

3.4.8.4.4 Bydd y pwyllgor yn adolygu adroddiad hunanasesu blynyddol y cyngor ac, os yw'n briodol, bydd yn gwneud argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r adroddiad. Amlinellir y drefn ar gyfer yr adolygiad hwn ym mharagraff 3.4.8.15.

3.4.8.4.5 Bydd y pwyllgor yn helpu'r cyngor i weithredu gwerthoedd llywodraethu moesegol. Bydd yn hyrwyddo mesurau i wella tryloywder ac atebolrwydd ac adroddiadau cyhoeddus effeithiol i randdeiliaid yr awdurdod a'r gymuned leol. Fel rhan o'i adolygiad o drefniadau llywodraethu, bydd yn sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i orfodi ymrwymiad cryf i werthoedd moesol a chydymffurfiad cyfreithiol ar bob lefel.

3.4.8.4.6 Bydd y pwyllgor yn adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd sydd ar gael ar gyfer partneriaethau neu drefniadau cydweithio o bwys.

### 3.4.8.5 Rheoli Trysorlys

3.4.8.5.1 Mae'r cyngor llawn wedi enwebu'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau craffu effeithiol ar strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys.

3.4.8.5.2 Bydd y pwyllgor yn ymgymryd â rôl archwilio yn unol â Chod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA, cyn ei gymeradwyo gan y cyngor llawn. Lle mae'n ymgymryd â'r rôl graffu hon, bydd yn ymdrechu i ddatblygu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion trysorlys ymhlith yr aelodau.

3.4.8.5.3 Bydd y pwyllgor yn adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau rheoli trysorlys er mwyn bodloni ei hun fod y rheolaethau'n foddhaol. Bydd yn derbyn adroddiadau bob chwe mis ar weithgareddau, materion a thueddiadau i gefnogi dealltwriaeth y pwyllgor o weithgareddau rheoli trysorlys.

3.4.8.5.4 Bydd y pwyllgor yn adolygu proffil a phrosesau risg y trysorlys, a bydd yn adolygu'r sicrwydd a roddir ynghylch rheoli trysorlys.

### 3.4.8.6 Gwerth am arian

3.4.8.6.1 Bydd y pwyllgor yn cefnogi datblygu trefniadau cadarn i sicrhau bod y cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau a bod trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwerth rhagorol am arian.

3.4.8.6.2 Bydd y pwyllgor yn adolygu ymagwedd gyffredinol y cyngor tuag at werth am arian ac yn asesu a yw'n cyd-fynd ag amcanion llywodraethu a'r sicrwydd ynghylch hyn i ategu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.6.3 Bydd y pwyllgor yn ystyried sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn, yn enwedig adroddiadau gwella blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru.

**3.4.8.7 Fframwaith sicrwydd**

3.4.8.7.1 Bydd y pwyllgor yn ystyried fframwaith sicrwydd y cyngor ac yn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â risgiau a blaenoriaethau'r cyngor yn ddigonol. Bydd hyn yn gymorth i gefnogi'r pwyllgor wrth iddo gymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg trwy nodi i ba raddau y bydd yn dibynnu ar archwiliad mewnol am ei ofynion sicrwydd.

3.4.8.7.2 Bydd y pwyllgor yn sicrhau bod eglurder ynghylch y sicrwydd a ddarperir, bod cyfrifoldeb yn cael ei ddyrannu'n glir ar gyfer darparu sicrwydd ac osgoi dyblygu.

**3.4.8.8 Rheoli risg**

3.4.8.8.1 Bydd sicrwydd dros reoli risg yn elfen allweddol sy'n sail i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. I'r perwyl hwn, bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu datblygiad a gweithrediad rheolaeth risg effeithiol yn y cyngor. Yn benodol, bydd yn:

- Goruchwylio polisi a strategaeth rheoli risg yr awdurdod, a'u gweithredu'n ymarferol
- Goruchwylio'r modd y caiff rheoli risg ei integreiddio i brosesau llywodraethu a gwneud penderfyniadau'r sefydliad
- Adolygu'r trefniadau i gydlynu a rheoli risgiau, gan gynnwys y broses a'r llinellau adrodd
- Adolygu'r proffil risg, cadw i fyny â meysydd sylweddol o risgiau strategol a risgiau gweithredol a phrosiectau mawr
- Adolygu'r sicrwydd sydd ar gael ar gyfer rheoli risgiau partneriaeth, gan gynnwys proffil risg y Cyngor fel rhan o'r bartneriaeth
- Adolygu'r gofrestr risg gorfforaethol a cheisio sicrwydd bod y rheolwyr yn cymryd perchenogaeth briodol ac yn rheoli risgiau yn effeithiol
- Mofyn sicrwydd bod asesiadau risg digonol yn cefnogi strategaethau a pholisïau a bod risgiau yn cael eu rheoli a'u monitro'n weithredol.
- Dilyn i fyny a monitro risgiau a nodwyd gan archwilwyr ac arolygwyr i sicrhau eu bod wedi'u hintegreiddio i'r broses rheoli risg
- Cefnogi datblygiad ac ymgorffori arferion da yn y maes rheoli risg.

**3.4.8.9 Mynd i'r afael â thwyll a llygredd**

3.4.8.9.1 Bydd y pwyllgor yn adolygu effeithiolrwydd trefniadau chwythu chwiban y cyngor, gan gynnwys y polisi.

3.4.8.9.2 Bydd y pwyllgor yn monitro'r strategaeth, y camau gweithredu a'r adnoddau atal twyll a llygredd, er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd â’r arferion, y safonau llywodraethu a’r ddeddfwriaeth a argymhellir.

3.4.8.9.3. Bydd y pwyllgor yn adolygu'r asesiad o risgiau twyll a niwed posibl i'r cyngor yn sgil twyll a llygredd. Bydd yn adolygu'r proffil risg twyll er mwyn deall lefel y risg o dwyll y mae'r awdurdod yn agored iddo a'r goblygiadau i'r amgylchedd rheoli ehangach.

3.4.8.9.4 Bydd yn goruchwylio unrhyw feysydd sylweddol o dwyll, a nodir mewn adroddiad blynyddol gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151, ac yn monitro cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau rheoli.

**3.4.8.10 Archwiliad mewnol**

3.4.8.10.1 Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae gofyniad penodol i'r pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y cyngor.

3.4.8.10.2 Rôl y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas ag archwilio mewnol fydd:
- goruchwylio ei annibyniaeth, ei wrthrychedd, ei berfformiad a’i broffesiynoldeb
- cefnogi effeithiolrwydd y broses archwilio fewnol
- hyrwyddo defnydd effeithiol o archwiliad mewnol o fewn y fframwaith sicrwydd.

3.4.8.10.3 Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r siarter archwilio mewnol, sy'n diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y gweithgaredd archwilio mewnol.

3.4.8.10.4 Os yw'n berthnasol, bydd yn adolygu cynigion ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â phenodi darparwyr allanol a all ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol.

3.4.8.10.5 Bydd y pwyllgor yn cymeradwyo (ond ddim yn rheoli) y strategaeth archwilio fewnol sy'n seiliedig ar risg, gan gynnwys anghenion archwilio mewnol o ran adnoddau a’r defnydd o ffynonellau sicrwydd eraill. Bydd ganddo ddealltwriaeth dda o’r lefel o sicrwydd y mae rheoli risg yn ei ddarparu pan fydd yn adolygu'r strategaeth archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg. Bydd y pwyllgor yn cymeradwyo newidiadau interim sylweddol i'r strategaeth.

3.4.8.10.6 Bydd y pwyllgor yn gwneud ymholiadau priodol i reolwyr a'r pennaeth archwilio mewnol i benderfynu a oes unrhyw sgôp amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau.

3.4.8.10.7 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol gan y pennaeth archwilio mewnol ar berfformiad y swyddogaeth archwilio mewnol, gan gynnwys perfformiad darparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol.

3.4.8.10.8 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol a'r farn ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn. Bydd y rhain yn cynorthwyo'r pwyllgor wrth iddo adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.10.9 Bydd y pwyllgor yn ystyried y datganiad yn yr adroddiad blynyddol ar lefel y gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a chanlyniadau'r

Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella sy'n cefnogi'r datganiad - bydd y rhain yn nodi dibynadwyedd casgliadau’r archwilwyr mewnol.

3.4.8.10.10 Bydd y pwyllgor yn ystyried diweddariadau ar waith archwilio mewnol gan gynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n peri pryder, ymatebion gan reolwyr a chamau gweithredu o ganlyniad i waith archwilio mewnol. Bydd yn ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnir amdanynt, gan gynnwys effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a bydd yn monitro gweithrediad y camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

3.4.8.10.11 Bydd y pwyllgor yn derbyn adroddiadau yn amlinellu'r camau a gymerwyd lle mae’r pennaeth archwilio mewnol wedi dod i'r casgliad bod y rheolwyr wedi derbyn risg ar lefel a allai fod yn annerbyniol i'r awdurdod neu fod pryderon ynghylch cynnydd o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt.

3.4.8.10.12 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar achosion lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a’r Nodyn Cymhwysiad Llywodraeth Leol, gan ystyried a yw'r diffyg cydymffurfiaeth yn ddigon arwyddocaol fel bod rhaid ei gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.4.8.10.13 Bydd y pwyllgor yn ystyried, yn cymeradwyo ac, yn achlysurol, yn adolygu unrhyw ddulliau diogelu sydd wedi cael eu sefydlu i gyfyngu ar rwystrau i annibyniaeth a gwrthrychedd sydd gan y pennaeth archwilio mewnol yn deillio o rolau neu gyfrifoldebau ychwanegol sydd y tu allan i’r maes archwilio mewnol.

3.4.8.10.14. Bydd y pwyllgor yn cyfrannu at y Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella ac, yn benodol, at yr asesiad ansawdd allanol o archwiliad mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd yn goruchwylio cymwysterau ac annibyniaeth yr asesydd.

3.4.8.10.15 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad ar effeithiolrwydd archwiliad mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, lle bo angen gwneud hynny yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

3.4.8.10.16 Bydd y pwyllgor yn cefnogi datblygiad dulliau cyfathrebu effeithiol â’r pennaeth archwilio mewnol. Mae'r ymgysylltiad rhwng y pennaeth archwilio mewnol a'r pwyllgor archwilio yn elfen hanfodol o ddarparu gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol.

3.4.8.10.17 Bydd y pwyllgor yn darparu mynediad rhydd a cwbl ddirwystr i gadeirydd y pwyllgor archwilio ar gyfer y pennaeth archwilio mewnol, gan gynnwys y cyfle i gyfarfod yn breifat gyda'r pwyllgor.

**3.4.8.11 Archwiliad allanol**

3.4.8.11.1 Bydd y pwyllgor yn cefnogi annibyniaeth a gwrthrychedd archwiliad allanol trwy ystyried asesiad blynyddol yr archwilydd annibynnol o'i annibyniaeth.

3.4.8.11.2 Bydd y pwyllgor yn ystyried llythyr blynyddol yr archwilydd allanol a'r adroddiad i'r *'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'*. Bydd yn cyfrannu at ymateb y cyngor i'r llythyr archwilio blynyddol.

3.4.8.11.3 Bydd y pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio allanol, yn rhoi sylwadau ar sgôp a dyfnder y gwaith archwilio allanol ac yn sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a bydd yn monitro eu hargymhellion.

3.4.8.11.4 Bydd y pwyllgor yn cynghori ac yn argymell effeithiolrwydd y berthynas rhwng archwiliadau allanol a mewnol ac asiantaethau arolygu eraill neu gyrff perthnasol.

3.4.8.11.5 Bydd cyfle i'r pwyllgor  Llywodraethu ac Archwilio gwrdd yn breifat ac ar wahân gyda'r archwiliwr allanol, yn annibynnol o'r swyddogion hynny y mae'n rhaid i'r archwilydd gynnal perthynas waith â hwy.

**3.4.8.12 Adrodd ariannol**

3.4.8.12.1 Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn craffu ar faterion ariannol y cyngor, gan wneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â hwy.

3.4.8.12.2 Bydd y pwyllgor yn adolygu, cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y cyngor llawn, ddatganiadau ariannol blynyddol yr awdurdod, gan gynnwys y rhagair esboniadol, negeseuon allweddol, tueddiadau, cysondeb â pherfformiad ariannol, addasrwydd a chydymffurfiaeth â pholisïau a thriniaethau cyfrifyddu a meysydd dyfarnu pwysig.

3.4.8.12.3 Bydd y pwyllgor yn ystyried adroddiad yr archwilydd allanol i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' ar faterion sy'n deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon ac a oes angen eu dwyn i sylw'r cyngor ai peidio.

**3.4.8.13 Rheoleiddwyr ac arolygwyr eraill**

3.4.8.13.1 Bydd y pwyllgor yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan unrhyw reoleiddwyr neu arolygwyr eraill, a fydd yn ffynhonnell sicrwydd ddefnyddiol. O ran y rhain, bydd yr awdurdod yn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu diangen rhwng y pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac unrhyw bwyllgor trosolwg a sgriwtini wrth ystyried adroddiadau o'r fath.

**3.4.8.14 Delio â Chwynion**

3.4.8.14.1 Bydd y pwyllgor yn adolygu ac yn asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol.

3.4.8.14.2 Bydd y pwyllgor yn gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol

**3.4.8.15 Adroddiad Hunanasesu**

3.4.8.15.1 Bob blwyddyn ariannol, bydd y pwyllgor yn derbyn drafft o adroddiad hunanasesu'r cyngor [i'w ddrafftio yn unol â Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad a llywodraethu'r prif gynghorau)]

3.4.8.15.2 Bydd y pwyllgor yn derbyn yr adroddiad drafft gan y cyngor cyn pen pedair wythnos i'r cyngor wneud yr adroddiad.

3.4.8.15.3 Bydd y pwyllgor yn adolygu'r adroddiad drafft a chaiff argymell newidiadau i'r casgliadau, neu i unrhyw beth a gynhwysir gan y cyngor o ran y camau y mae'n bwriadu

eu cymryd, neu y mae eisoes wedi'u cymryd, er mwyn cynyddu i ba raddau y bydd yn cwrdd â'r gofyniad perfformiad yn y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

3.4.8.15.4 Rhaid cynnwys unrhyw argymhelliad a wneir gan y pwyllgor, ond na chafodd ei fabwysiadu gan y cyngor cyn cyhoeddi, yn yr adroddiad gyda rhesymau pam nad yw'r cyngor wedi gwneud y newidiadau a argymhellir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**.**

**3.4.8.16 Asesiad o berfformiad gan Banel**

3.4.8.16.1 O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

3.4.8.16.2 Rhaid i'r cyngor gyhoeddi adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel o leiaf chwe mis cyn dyddiad yr etholiad cyffredin nesaf.

3.4.8.16.3 Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

3.4.8.16.4 Os nad yw'r cyngor yn gwneud newid a argymhellwyd gan y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, mae'n rhaid iddo nodi'r argymhelliad yn ei ymateb terfynol a'r rhesymau pan na wnaethpwyd y newid ganddo.

**3.4.8.17 Archwiliad Arbennig gan yr Archwilydd Cyffredinol**

3.4.8.17.1 Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad arbennig (gan ei fod o'r farn nad yw'r cyngor, neu efallai nad yw'r cyngor, yn cwrdd â'i ofynion perfformiad), a bod adroddiad yn cael ei anfon at y cyngor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn adroddiad o'r fath, rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

3.4.8.17.2 Pe bai gofyn i'r cyngor ymateb i adroddiad a gyhoeddir yn unol â pharagraff 3.4.8.16 uchod, rhaid i'r cyngor sicrhau bod drafft o'r ymateb ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhaid i'r pwyllgor adolygu'r ymateb drafft a chaiff wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r datganiad a wnaed mewn ymateb i ba gamau, os o gwbl, y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol.

3.4.8.17.3 Rhaid cynnwys unrhyw argymhelliad a wneir gan y pwyllgor, ond na chafodd ei fabwysiadu gan y cyngor cyn cyhoeddi, yn yr ymateb gyda rhesymau pam nad yw'r cyngor wedi gwneud y newidiadau a argymhellir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**Atodiad 2**

**2.9.1 Pwyllgor Safonau**

Bydd y Cyngor yn sefydlu Pwyllgor Safonau.

**2.9.2 Cyfansoddiad**

**2.9.2.1 Aelodaeth**

Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, bydd y Pwyllgor Safonau yn cynnwys y rhai a ganlyn:

2 Gynghorydd Sir

5 aelod annibynnol

2 aelod o gyngor cymuned (nad ydynt, i bwrpas y Cyfansoddiad hwn, yn cael eu hystyried yn aelodau annibynnol).

**2.9.2.2 Tymor mewn swydd**

2.9.2.2.1 Penodir yr aelodau annibynnol yn awtomatig am gyfnod o ddau dymor o ~~bedair~~bum mb~~l~~lynedd yn olynol.

2.9.2.2.2 Oni bai y cânt eu hail ddewis, penodir yr aelodau cyngor cymuned hyd at yr etholiad nesaf neu tan fyddant yn peidio â bod yn aelod o gyngor cymuned o fewn ardal awdurdod lleol Cyngor Sir Ynys Môn, p'un bynnag sydd fyrraf. Gellir ail-benodi aelod o gyngor cymuned am un tymor olynol arall ar yr amod bod Cyngor Sir Ynys Môn a'r Cynghorau Cymuned wedi cytuno ar y cyd i ddewis aelod(au) cyfredol o gyngor cymuned fel enwebai ar gyfer y penodiad.

2.9.2.2.3 Bydd hyd tymor mewn swydd Cynghorwyr Sir sy'n aelodau o'r Pwyllgor Safonau yn ddim mwy na ~~phedair~~phum mlynedd neu tan yr etholiad llywodraeth leol arferol nesaf yn dilyn eu penodiad, p'un bynnag sydd fyrraf.

**2.9.2.3 Cworwm**

Ni fydd gan gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau gworwm oni bai fod:

2.9.2.3.1 o leiaf dri aelod, gan gynnwys y cadeirydd, yn bresennol; a bod

2.9.2.3.2 o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y cadeirydd) yn aelodau annibynnol.

**2.9.2.4 Pleidleisio**

Bydd gan Aelodau o'r Cyngor Sir aelodau annibynnol a'r aelodau o gyngor cymuned hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd.

**2.9.2.5 Aelodau Cyngor Cymuned**

2.9.2.5.1 Ni fydd yr aelodau o gyngor cymuned yn cymryd rhan yn nhrafodion y Pwyllgor Safonau pan fo unrhyw fater yn ymwneud â'i Gyngor Cymuned yn cael ei ystyried.

2.9.2.5.2 Bydd yr aelodau cyngor cymuned ond yn cymryd rhan mewn gwrandawiadau/ceisiadau sydd gerbron y Pwyllgor Safonau pan fydd yn cyflawni'r dyletswyddau hynny sy'n ymwneud â chynghorau cymuned ac aelodau cynghorau cymuned yn unig.

**2.9.2.6 Cadeirio'r Pwyllgor**

2.9.2.6.1 Dim ond aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau all fod yn gadeirydd.

2.9.2.6.2 Bydd y cadeirydd yn cael ei ethol gan aelodau'r Pwyllgor Safonau am gyfnod na fydd yn hwy na ~~phedair~~phum mb~~b~~lynedd neu am y cyfnod hwnnw y bydd yr unigolyn yn dal i fod yn aelod o'r Pwyllgor, pa gyfnod bynnag sydd fyrraf o'r ddau ond bydd yn gymwys i gael ei ail-ethol fel cadeirydd.

**2.9.3 Rôl a Swyddogaeth**

Bydd gan y Pwyllgor Safonau'r rolau a'r swyddogaethau canlynol:

2.9.3.1 hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr;

2.9.3.2 cynorthwyo'r ~~C~~cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr i gadw Cod Ymddygiad Aelodau (5.1);

2.9.3.3 cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad Aelodau (5.1);

2.9.3.4 monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau (5.1);

2.9.3.5 cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi ~~C~~cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni lywodraethwyr ar faterion yn ymwneud â Chod Ymddygiad Aelodau (5.1);

2.9.3.6 rhoddi caniatâd arbennig i ~~G~~gynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni lywodraethwyr o ofynion yn ymwneud â diddordebau a nodir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau;

2.9.3.7 ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu o dribiwnlys achos amodol, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a drosglwyddwyd i'r swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

2.9.3.8 ymarfer 2.9.3.1 i 2.9.3.7 uchod mewn perthynas â'r cynghorau cymuned yn ei ardal ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny.

2.9.3.9 Cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor. Mae'n rhaid i'r adroddiad ddisgrifio sut y cafodd swyddogaethau'r pwyllgor eu harfer yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae'n rhaid i'r adroddiad gynnwys crynodeb o'r hyn a wnaethpwyd i gyflawni swyddogaethau cyffredinol a phenodol y pwyllgor mewn perthynas â:

2.9.3.9.1 monitro cydymffurfiaeth arweinyddion grwpiau â'u dyletswydd i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr.

2.9.3.9.2 darparu hyfforddiant i arweinyddion grwpiau er mwyn caniatáu iddynt gyflawni eu dyletswyddau o dan baragraff 2.9.3.9.1.

2.9.3.9.3 adroddiadau ac argymhellion a wneir gan y pwyllgor neu a gyfeirir ato mewn perthynas â:

- Canllawiau a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)
- Ymchwiliadau gan OGCC
- Materion a gyfeiriwyd at y Swyddog Monitro gan OGCC a'r camau a gymerwyd
- Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru
- Penderfyniadau gan y tribiwnlys haen gyntaf
- Penderfyniadau gan dribiwnlys achos Cymru
- Camau a gymerwyd gan y pwyllgor ar ôl ystyried adroddiadau ac argymhellion o'r fath.

2.9.3.9.4 Gall adroddiadau blynyddol y pwyllgor safonau gynnwys argymhellion i'r awdurdod ynglŷn ag unrhyw fater y mae gan y pwyllgor swyddogaethau mewn perthynas ag o.

2.9.3.9.5 Mae'n rhaid i'r cyngor ystyried pob adroddiad blynyddol a luniwyd gan ei bwyllgor safonau cyn diwedd 3 mis sy'n cychwyn ar y diwrnod y mae'r cyngor yn derbyn yr adroddiad.

~~**Sylwer:** Mae copi o Gyfansoddiad llawn y Pwyllgor Safonau ar gael gan y Swyddog Monitro.~~

**Formatted:** Indent: Left: 2.38 cm

**Formatted:** List Paragraph, No bullets or numbering

**Formatted:** Indent: Left: 2.38 cm

**Formatted:** List Paragraph, No bullets or numbering

**Formatted:** Indent: Left: 2.66 cm, Hanging: 0.63 cm, Bulleted + Level: 1 + Aligned at: 3.02 cm + Indent at: 3.65 cm

**Formatted:** Indent: Left: 2.38 cm

**Formatted:** Indent: Left: 1.75 cm, Hanging: 0.63 cm

**Formatted:** Indent: Left: 2.38 cm

**Atodiad 2**

### 2.9.1 Pwyllgor Safonau

Bydd y Cyngor yn sefydlu Pwyllgor Safonau.

### 2.9.2 Cyfansoddiad

#### 2.9.2.1 Aelodaeth

Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, bydd y Pwyllgor Safonau yn cynnwys y rhai a ganlyn:

2 Gynghorydd Sir

5 aelod annibynnol

2 aelod o gyngor cymuned (nad ydynt, i bwrpas y Cyfansoddiad hwn, yn cael eu hystyried yn aelodau annibynnol).

#### 2.9.2.2 Tymor mewn swydd

2.9.2.2.1 Penodir yr aelodau annibynnol yn awtomatig am gyfnod o ddau dymor o bum mlynedd yn olynol.

2.9.2.2.2 Oni bai y cânt eu hail ddewis, penodir yr aelodau cyngor cymuned hyd at yr etholiad nesaf neu tan fyddant yn peidio â bod yn aelod o gyngor cymuned o fewn ardal awdurdod lleol Cyngor Sir Ynys Môn, p’un bynnag sydd fyrraf. Gellir ail-benodi aelod o gyngor cymuned am un tymor olynol arall ar yr amod bod Cyngor Sir Ynys Môn a’r Cynghorau Cymuned wedi cytuno ar y cyd i ddewis aelod(au) cyfredol o gyngor cymuned fel enwebai ar gyfer y penodiad.

2.9.2.2.3 Bydd hyd tymor mewn swydd Cynghorwyr Sir sy’n aelodau o’r Pwyllgor Safonau yn ddim mwy na phum mlynedd neu tan yr etholiad llywodraeth leol arferol nesaf yn dilyn eu penodiad, p’un bynnag sydd fyrraf.

#### 2.9.2.3 Cworwm

Ni fydd gan gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau gworwm oni bai fod:

2.9.2.3.1 o leiaf dri aelod, gan gynnwys y cadeirydd, yn bresennol; a bod

2.9.2.3.2 o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y cadeirydd) yn aelodau annibynnol.

#### 2.9.2.4 Pleidleisio

Bydd gan Aelodau o’r Cyngor Sir aelodau annibynnol a’r aelodau o gyngor cymuned hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd.

### 2.9.2.5 Aelodau Cyngor Cymuned

2.9.2.5.1 Ni fydd yr aelodau o gyngor cymuned yn cymryd rhan yn nhrafodion y Pwyllgor Safonau pan fo unrhyw fater yn ymwneud â'i Gyngor Cymuned yn cael ei ystyried.

2.9.2.5.2 Bydd yr aelodau cyngor cymuned ond yn cymryd rhan mewn gwrandawiadau/ceisiadau sydd gerbron y Pwyllgor Safonau pan fydd yn cyflawni'r dyletswyddau hynny sy'n ymwneud â chynghorau cymuned ac aelodau cynghorau cymuned yn unig.

### 2.9.2.6 Cadeirio'r Pwyllgor

2.9.2.6.1 Dim ond aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau all fod yn gadeirydd.

2.9.2.6.2 Bydd y cadeirydd yn cael ei ethol gan aelodau'r Pwyllgor Safonau am gyfnod na fydd yn hwy na phum mlynedd neu am y cyfnod hwnnw y bydd yr unigolyn yn dal i fod yn aelod o'r Pwyllgor, pa gyfnod bynnag sydd fyrraf o'r ddau ond bydd yn gymwys i gael ei ail-ethol fel cadeirydd.

### 2.9.3 Rôl a Swyddogaeth

Bydd gan y Pwyllgor Safonau'r rolau a'r swyddogaethau canlynol:

2.9.3.1 hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr;

2.9.3.2 cynorthwyo'r cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr i gadw Cod Ymddygiad Aelodau (5.1);

2.9.3.3 cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad Aelodau (5.1);

2.9.3.4 monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau (5.1);

2.9.3.5 cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni lywodraethwyr ar faterion yn ymwneud â Chod Ymddygiad Aelodau (5.1);

2.9.3.6 rhoddi caniatâd arbennig i gynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni lywodraethwyr o ofynion yn ymwneud â diddordebau a nodir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau;

2.9.3.7 ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu o dribiwnlys achos amodol, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a drosglwyddwyd i'r swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

2.9.3.8 ymarfer 2.9.3.1 i 2.9.3.7 uchod mewn perthynas â'r cynghorau cymuned yn ei ardal ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny.

2.9.3.9 Cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor. Mae'n rhaid i'r adroddiad ddisgrifio sut y cafodd swyddogaethau'r pwyllgor eu harfer yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae'n rhaid i'r adroddiad gynnwys crynodeb o'r hyn a wnaethpwyd i gyflawni swyddogaethau cyffredinol a phenodol y pwyllgor mewn perthynas â:

2.9.3.9.1 monitro cydymffurfiaeth arweinyddion grwpiau â'u dyletswydd i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr.

2.9.3.9.2 darparu hyfforddiant i arweinyddion grwpiau er mwyn caniatáu iddynt gyflawni eu dyletswyddau o dan baragraff 2.9.3.9.1.

2.9.3.9.3 adroddiadau ac argymhellion a wneir gan y pwyllgor neu a gyfeirir ato mewn perthynas â:

- Canllawiau a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)
- Ymchwiliadau gan OGCC
- Materion a gyfeiriwyd at y Swyddog Monitro gan OGCC a'r camau a gymerwyd
- Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru
- Penderfyniadau gan y tribiwnlys haen gyntaf
- Penderfyniadau gan dribiwnlys achos Cymru
- Camau a gymerwyd gan y pwyllgor ar ôl ystyried adroddiadau ac argymhellion o'r fath.

2.9.3.9.4 Gall adroddiadau blynyddol y pwyllgor safonau gynnwys argymhellion i'r awdurdod ynglŷn ag unrhyw fater y mae gan y pwyllgor swyddogaethau mewn perthynas ag o.

2.9.3.9.5 Mae'n rhaid i'r cyngor ystyried pob adroddiad blynyddol a luniwyd gan ei bwyllgor safonau cyn diwedd 3 mis sy'n cychwyn ar y diwrnod y mae'r cyngor yn derbyn yr adroddiad.

This page is intentionally left blank